# Stratgaeth Ddigartrefedd Caerdydd

2018—2022



UCHELGAIS PRIFDDINAS CAPITAL AMBITION

CARDIFF CAERDYDD

# Cynnwys




Rhagair 3

Cyflwyniad 4

Canfyddiadau Allweddol 5

Crynodeb o'r Ymrwymiadau 7

Gweithredu'r Strategaeth 10

Cyd-destun Polisi Cenedlaethol 11

Cyd-destun Polisi Lleol 15

Yr Adolygiad Digartrefedd 17

Gwasanaethau Digartrefedd yng Nghaerdydd 18

Sylwadau Partneriaid 22

Arolwg Digartrefedd Cleientiaid 24

Y Galw am Wasanaethau 26

Achosion Digartrefedd 27

Ymyrraeth Gynnar 28

Materion Allweddol 31

*Materion Ariannol 31*

*Methiant teuluol 33*

Tai Cymdeithasol 36

Y Sector Rhent Preifat 37

Llety Dros Dro a Llety â Chymorth 40

Llwybrau Arbenigol 47

Cefnogaeth i Bobl sy'n Agored i Niwed 49

Cysgu Allan 52

Cydraddoldebau 57




# Rhagair



## Y Cynghorydd Lynda Thorne
### Aelod Cabinet Tai a Chymunedau

Rwy'n falch o rannu Strategaeth Ddigartrefedd Caerdydd 2018-2022 gyda chi. Mae'r strategaeth yn cydnabod ac yn adeiladu ar y gwaith sylweddol sydd eisoes yn digwydd i atal ac ymdrin â digartrefedd ledled Caerdydd, ond yr wyf yn cydnabod bod mwy i'w wneud o hyd.

Datblygwyd y strategaeth mewn cyfnod o heriau. Mae diwygiad economaidd a lles wedi effeithio ar gyllidebau nifer o aelwydydd ac, ynghyd â chostau tai uchel yng Nghaerdydd, wedi arwain at gynyddu'r galw am wasanaethau digartrefedd. Mae'r galw ychwanegol hwn, ynghyd â gostyngiadau mewn gwariant cyhoeddus, wedi rhoi cryn bwysau ar y sectorau statudol a gwirfoddol. Mewn ymateb, mae'r ddogfen hon yn amlinellu'r dull cydlynol sydd ei angen i ymdrin â digartrefedd ac atal digartrefedd yn ein dinas dros y pedair blynedd nesaf.


Gall nifer o ffactorau gwahanol gyfrannu tuag at i bobl ddod yn ddigartref. Mae'r rhain yn cynnwys materion personol megis dyledion; iechyd corfforol a meddwl gwael; methiant perthynas; wedi bod mewn gofal, y lluoedd arfog neu'r carchar, a ffactorau economaidd-gymdeithasol ehangach, megis tlodi a diffyg tai fforddiadwy.

Hefyd cofnodwyd yn helaeth y gall diffyg tai sefydlog ynddo'i hun effeithio ar iechyd corfforol, iechyd meddwl a llesiant unigolyn, gan ei gwneud yn anos dod o hyd i swydd a chynnal perthnasau. Po hiraf y mae rhywun yn y sefyllfa hon, y mwyaf y maent mewn perygl o ddatblygu problemau cymhleth neu lluosog.

Yn ogystal ag effeithiau unigol, mae gan ddigartrefedd oblygiadau ehangach i Gaerdydd gyfan, gan effeithio yn y pen draw ar lefelau anghydraddoldeb; allgáu cymdeithasol; cydlyniant cymunedol a ffyniant economaidd. Fy nghred bersonol, a rennir gan weddill y Cabinet, yw fod cyngor a chymorth tai o ansawdd da yn elfen sylfaenol o ran cefnogi pobl sy'n agored i niwed i ymdrin â'u problemau a sicrhau'r canlyniadau gorau posibl.

Ynghyd â phartneriaid ar draws y sectorau cyhoeddus, preifat a gwirfoddol, rwyf wedi ymrwymo i ymdrin ag achosion ac effeithiau digartrefedd a pharhau i sicrhau newid effeithiol. I'r perwyl hwnnw, mae'r strategaeth hon yn anelu at sicrhau bod yr holl aelwydydd sy'n ddigartref a'r rhai sy'n agored i niwed yng Nghaerdydd yn cael help a chymorth priodol ac amserol.

*Y Cynghorydd  Lynda Thorne*



Aelod Cabinet Tai a Chymunedau.

# Cyflwyniad

Mae Deddf Tai (Cymru) 2014 yn gosod dyletswydd ar awdurdodau lleol i gynnal adolygiadau digartrefedd lleol a llunio a mabwysiadu strategaethau digartrefedd yn seiliedig ar y canlyniadau. Amcanion allweddol yw atal digartrefedd, sicrhau llety addas a darparu cefnogaeth ddigonol.

Ymateb yw Strategaeth Ddigartrefedd Caerdydd 2018-2022 i adolygiad cynhwysfawr o ddigartrefedd yng Nghaerdydd a gynhaliwyd yn ystod 2018. Edrychodd yr adolygiad ar yr amrywiaeth o broblemau a wynebir gan aelwydydd dan fygythiad o ddigartrefedd neu sy'n profi digartrefedd, a digonolrwydd ymateb y gwasanaeth a dderbyniwyd, er mwyn nodi unrhyw fylchau yn y ddarpariaeth. Ochr yn ochr ag archwilio data allweddol, ystyriwyd barn partneriaid a defnyddwyr gwasanaeth.

Gosoda'r strategaeth ganlynol y cyfeiriad strategol ar gyfer gwasanaethau digartrefedd yng Nghaerdydd ac yn nodi'r blaenoriaethau allweddol ar gyfer y Cyngor a'i bartneriaid. Mae'n ategu ac yn rhedeg ochr yn ochr â Strategaeth Cysgu Allan 2017-2020 Caerdydd a Strategaeth Dai Caerdydd 2016 - 2021.

**Stratgaeth Ddigartrefedd Caerdydd**
2018—2022



## Strategaeth Ddigartrefedd Caerdydd 2018-2022

Noda'r Strategaeth Ddigartrefedd ar gyfer Caerdydd sut y bydd y Cyngor a'i bartneriaid yn darparu gwasanaethau digartrefedd ledled y ddinas.

**Bydd y weledigaeth:**

***'i weithio gyda'n partneriaid i atal digartrefedd, gan ddarparu'r gefnogaeth iawn ar yr adeg iawn er mwyn diwallu anghenion tai ein dinasyddion'***

**yn cael ei gwireddu trwy'r nodau allweddol canlynol:**

- **Darparu gwasanaethau cyngor tai o ansawdd da ar draws y ddinas, gan helpu pob dinesydd i ddod o hyd i'r datrysiad tai cywir ar eu cyfer.**
- **Cymryd camau cynnar i helpu atal digartrefedd.**
- **Darparu tai dros dro o ansawdd da, gan barhau i osgoi defnyddio llety gwely a brecwast.**
- **Gweithio gyda landlordiaid preifat a chymdeithasol i sicrhau bod ystod o atebion tai parhaol o ansawdd da ar gael.**
- **Sicrhau bod cefnogaeth briodol ar gael i'n dinasyddion mwy agored i niwed.**
- **Gweithio mewn partneriaeth ag asiantaethau statudol a thrydydd sector i sicrhau gwasanaeth cydgysylltiedig i gleientiaid.**

# Canfyddiadau Allweddol



## GALW CYNYDDOL

Mae'r galw am wasanaethau wedi cynyddu'n sylweddol. Cynyddodd y ceisiadau am gymorth o **68%** ers mis Ebrill 2015. Cynyddodd yr aelwydydd sy'n cael eu bygwth â digartrefedd o **103%.**



## YMYRRAETH GYNNAR

Yn ystod 2017/18, **rhwystrodd Caerdydd 73%** o aelwydydd rhag dod yn ddigartref pan geisiwyd cymorth ar gam cynnar. Dyma'r trydydd canlyniad uchaf yng Nghymru. Fodd bynnag, nid yw llawer o aelwydydd yn ceisio help cyn dod yn ddigartref ac mae angen cynyddu hygyrchedd ac argaeledd gwasanaethau fel bod mwy o bobl yn cael cymorth yn gynnar.



## MATERION ARIANNOL

Ôl-ddyledion morgais a rhent oedd **prif achos y bygythiad o ddigartrefedd** yn 2017/18 gyda **707** o achosion, sef cynnydd o **247%** ar y flwyddyn flaenorol. Mae materion cymdeithasol ehangach megis effaith diwygio lles yn cyfrannu at gynnydd sylweddol yn nifer y bobl sy'n dioddef anawsterau ariannol sy'n arwain at ôl-ddyledion rhent.

## SECTOR RHENT PREIFAT



Hefyd gwelir bod colli llety rhent neu lety wedi'i glymu, heblaw trwy ôl-ddyledion rhent, yn brif achos digartrefedd yng Nghaerdydd. Awgryma tystiolaeth bod landlordiaid yn gwerthu eu heiddo ac yn gadael y farchnad rhentu preifat. Mae lefelau rhent uchel yng Nghaerdydd, ac amharodrwydd landlordiaid i osod tai i hawlwyr budd-daliadau wedi cael eu nodi fel rhwystrau i ddefnyddio'r adnodd hwn yn effeithiol. Mae angen cefnogi landlordiaid yn well a chynyddu cymhellion iddynt rentu i ymgeiswyr digartref.

## METHIANT TEULUOL



Cafwyd cynnydd o 81% mewn cleientiaid a gollodd lety a ddarparwyd gan rieni, perthnasau neu ffrindiau o fis Ebrill 2015 i fis Mawrth 2018. Hwn oedd yr achos mwyaf o ddigartrefedd yng Nghaerdydd yn 2017/18. Mae angen adeiladu ar y trefniadau cyfryngu teuluol presennol. Hefyd mae pryderon bod newidiadau i Gynllun Dyrannu Tai Caerdydd yn 2015, a effeithiodd ar statws blaenoriaeth ymgeiswyr sy'n byw gartref, yn cyfrannu at y cynnydd yn y rhai sy'n cyflwyno gyda hybysiad gan rieni, ac mae angen diwygio'r Cynllun Dyrannu i ymdrin â hyn.



# Canfyddiadau Allweddol

## LLWYBRAU ARBENIGOL



Mae nifer uchel o aelwydydd yng Nghaerdydd yn gorfod symud ymlaen o'r llety a ddarparwyd gan y **Gwasanaethau Cefnogi Lloches Cenedlaethol** yn dilyn penderfyniad ar eu hachos. Mae angen adolygiad o'r llwybr i sicrhau bod y cleientiaid hyn yn derbyn help cyn colli eu llety.



Gwelir bod ymadawyr carchardai yn cyfrif am nifer sylweddol o bobl sy'n cael mynediad at wasanaethau digartrefedd. Dim ond cyfle cyfyngedig sydd i wneud gwaith atal yn achos y mwyafrif o garcharorion. Mae angen adolygiad o'r llwybr ar gyfer yr aelwydydd hyn er mwyn asesu a oes lle i wella gwaith atal.

## GRWPIAU AGORED I NIWED



Mae gan lawer o gleientiaid broblemau cymhleth sy'n deillio o **Brofiadau Plentyndod Niweidiol**, gan arwain at broblemau megis iechyd meddwl a dibyniaeth ar sylweddau. Yn aml, gall y cleientiaid hyn frwydro i gynnal unrhyw fath o lety gan **arwain at ddigartrefedd cylchol**. I ymdrin ag achosion sylfaenol digartrefedd, mae angen dull **hysbysu trawma sy'n canolbwyntio ar y person, gyda mewnbwn aml-asiantaethol**.

## LLEDDFU DIGARTREFEDD



Mae gan Gaerdydd ystod eang o dai dros dro a thai â chymorth o **ansawdd uchel a bu'n llwyddiannus o ran osgoi defnyddio llety gwely a brecwast** ers mis Ionawr 2006. Fodd bynnag, mae'r nifer o gleientiaid sy'n dod i mewn i lety dros dro wedi cynyddu tra bod y nifer sy'n symud ymlaen i lety parhaol wedi gostwng yn ystod y blynyddoedd diwethaf. Arweiniodd hyn at dreulio cyfnodau hwy mewn darpariaeth dros dro. Mae angen gwella opsiynau symud ymlaen i atal arosiadau hir mewn llety dros dro.

## TAI CYMDEITHASOL



Mae bron i **8,000 o aelwydydd** ar y rhestr aros ac mae tua 400 o ymgeiswyr newydd yn ymuno bob mis. Ni all y cyflenwad presennol gwrdd â'r galw am dai cymdeithasol, er gwaethaf cynlluniau adeiladu newydd uchelgeisiol. Mae'r Sector Rhent Preifat yn hanfodol i ymdrin ag anghenion aelwydydd digartref.

## CYDRADDOLDEBAU



Mae cyfran uchel o ddynion ifanc sengl a phobl o gefndiroedd ethnig penodol yn dod yn ddigartref, ac mae angen ymchwilio i'r rhesymau dros hyn.

# Crynodeb o'r Ymrwymiadau

## 1 Ymestyn a gwella cyngor ar dai a rhoi cyhoeddusrwydd gwell i'r gwasanaethau sydd ar gael i helpu i atal digartrefedd.

- Datblygu gwasanaeth cyngor tai digartrefedd ac arbenigol mewnol.
- Darparu cyngor ar dai a digartrefedd ledled y ddinas trwy'r Hybiau Cymunedol.
- Hysbysebu'r gwasanaethau cynghori sydd ar gael i'r cyhoedd, yn ogystal â phartneriaid statudol a thrydydd sector.
- Cynnig mynediad digidol i wasanaethau digartref, drwy'r wefan, Skype a sgwrs ar-lein.

## 2 Adeiladu ar lwyddiant y gwaith atal presennol trwy ddatblygu gwasanaethau atal â mwy o ffocws sydd wedi'u targedu.

- Datblygu ymhellach y Gwasanaeth Atal, gan gynnig ystod eang o ymyriadau wedi'u teilwra i anghenion unigol.
- Cynnig apwyntiadau atal yn nhŷ'r cleient ei hun neu mewn Hybiau Cymunedol.
- Darparu ymyriadau cyfryngu amserol, hawdd eu defnyddio ar gyfer teuluoedd, landlordiaid a thenantiaid.
- Sicrhau fod y rhai sydd ag anghenion cymhleth yn cael eu cynorthwyo i ymgysylltu â chymorth cyn gynted ag y bo modd, gan adeiladu ar lwyddiant cynlluniau fel y Gwasanaeth Gweithiwr Cefnogi Tai a thrwy hysbysebu argaeledd Cymorth Fel Bo'r Angen.

## 3 Gwella'r gefnogaeth sydd ar gael i landlordiaid preifat er mwyn sicrhau bod gan deuluoedd digartref fynediad i lety sector preifat o safon dda.

- Datblygu tîm Sector Rhent Preifat arbenigol, gan ddarparu cyngor a chymorth o safon uchel i landlordiaid.
- Darparu hyfforddiant Sector Rhent Preifat i ddarpar denantiaid i fwyafu'r cyfle i gael tenantiaeth lwyddiannus.
- Adolygu'r ystod o gymhellion a roddir i landlordiaid preifat i gwrdd â'r newidiadau yn y Sector Rhent Preifat.
- Adolygu'r cynlluniau bond cyfredol gan sicrhau bod y rhain yn diwallu anghenion pob cleient, a'u bod yn gynaliadwy ac yn addas i'r diben.

## 4 Adolygu llwybrau arbenigol i wasanaethau i sicrhau eu bod yn gweithio'n effeithiol.

- Adolygu'r llwybr carcharorion ac adeiladu ar lwyddiant y llwybr carcharorion i fenywod sy'n agored i niwed.
- Datblygu gwasanaethau ymhellach i bobl ifanc trwy'r Hyb Ieuenctid Canol Dinas arfaethedig.
- Adolygu'r llety sydd ar gael i bobl ifanc sydd ag anghenion cymhleth.

## 5 Adolygu llwyddiant y Cynllun Dyrannu Tai diwygiedig i sicrhau bod anghenion pobl ddigartref a phobl agored i niwed eraill yn cael eu diwallu.

- Rhoi blaenoriaeth ychwanegol i ymgeiswyr tai sy'n byw gyda ffrindiau neu berthnasau mewn amgylchiadau tai gorlawn neu amgylchiadau eithriadol eraill.
- Archwilio rhoi blaenoriaeth bellach ar y rhestr aros i grwpiau sy'n agored i niwed megis y rhai sy'n cysgu allan neu'r rhai sy'n barod i symud ymlaen o hosteli.

## 6 Gwella gwasanaethau i'r rhai mwyaf agored i niwed trwy ymdrin ag achosion sylfaenol digartrefedd.

- Y Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus i weithio fel partneriaeth i adeiladu ar y tîm aml-asiantaethol yng nghanol y ddinas i gynnwys camddefnyddio sylweddau, gwasanaethau prawf a gwasanaethau iechyd meddwl.
- Darparu llety argyfwng ychwanegol a gwell.
- Gweithio i leihau troi allan neu adael darpariaeth tai â chymorth.
- Adolygu llwyddiant Tai yn Gyntaf a chynlluniau peilot arloesol eraill.
- Adolygu a chryfhau ymhellach y trefniadau partneriaeth er mwyn sicrhau bod dull amlasiantaethol clir i ymdrin ag unigolion bregus ac anhrefnus.
- Comisiynu project ymchwil i adolygu effeithiolrwydd gwasanaethau ar gyfer y rhai sy'n cysgu allan ac unrhyw gyfleoedd i wella.
- Adolygu sut mae problemau iechyd meddwl yn cael eu hadnabod yn ystod asesiadau digartrefedd a sicrhau y diwellir anghenion cymorth.

## 7 Lleihau'r amser a dreulir ym mhob math o lety dros dro a hosteli trwy gynyddu dewisiadau symud ymlaen.

- Sicrhau fod yr holl ddarparwyr tai yn ymwybodol o'r cynlluniau bond/rhent ymlaen llaw sydd ar gael, a hyrwyddo'r defnydd o'r sector rhent preifat.
- Gwella'r gwasanaethau i gleientiaid sy'n byw mewn llety dros dro i'w helpu i ddod o hyd i'w llety eu hunain.

## 8 Archwilio'r rhesymau dros effaith gwahaniaethol digartrefedd ar rai grwpiau, yn enwedig dynion iau a phobl o gefndiroedd ethnig penodol.

- Gwneud dadansoddiadau data pellach a phrofi canfyddiadau trwy ymgynghori â chleientiaid.

# Gweithredu'r Strategaeth


Er mwyn gwella'r gwasanaethau presennol ac ymdrin ag unrhyw fylchau yn y ddarpariaeth, mae'r strategaeth yn nodi nifer o weithgareddau uchelgeisiol sydd i'w cyflawni dros y pedair blynedd nesaf. Rhestrir y rhain fel ymrwymiadau 'Byddwn yn' trwy gydol y ddogfen a byddant yn hysbysu cynllun gweithredu ategol. Bydd y gweithrediad yn cael ei fonitro'n barhaus a chyhoeddir adroddiad ar y cynnydd bob blwyddyn.

Bydd gweithio mewn partneriaeth yn rhan annatod o ddatblygu'r strategaeth hon. Bydd yn cynnwys cydweithio rhwng Tai a Gofal Cymdeithasol o fewn y Cyngor, a chyda phartneriaid allweddol eraill gan gynnwys asiantaethau'r trydydd sector, yr Heddlu, Iechyd, Landlordiaid Cymdeithasol Cofrestredig (RSLs) a landlordiaid preifat.

## Cyllid

Defnyddir nifer o ffynonellau cyllid i gefnogi'r ymrwymiadau a wneir yn y strategaeth hon. Defnyddir y cyllid ychwanegol ar gyfer digartrefedd sydd ar gael gan Lywodraeth Cymru yn 2018/19 i gynyddu adnoddau ar gyfer cyngor a gwaith atal, tra bod y Grant Rhaglen Cefnogi Pobl a'r Grant Atal Digartrefedd yn cael eu defnyddio'n bennaf i gyllido gwasanaethau cymorth tai a digartrefedd y trydydd sector, megis hosteli i'r digartref, llochesau cam-drin domestig a chymorth pan fo'r angen yn nhŷ'r cleient ei hun. Mae Caerdydd hefyd yn rhagweithiol wrth ymgeisio am grantiau ad hoc i gyllido gwasanaethau ychwanegol.

# Cyn-destyn Polisi Cenedlaethol




## Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015

Mae Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015 yn canolbwyntio ar wella llesiant cymdeithasol, economaidd, amgylcheddol a diwylliannol Cymru. Mae'n ofynnol i gyrff cyhoeddus ystyried llesiant hirdymor y boblogaeth a gweithio'n gynaliadwy i atal problemau parhaus megis tlodi ac anghydraddoldebau iechyd.

Dyry'r Ddeddf anogaeth i sefydliadau weithio gyda'i gilydd i atal problemau rhag digwydd neu waethygu ac mae'n sefydlu saith nod llesiant cenedlaethol: - mae gan atal ac ymdrin â digartrefedd rôl allweddol i'w chwarae wrth ymdrin â nifer o'r rhain, gan gynnwys cyflawni Cymru fwy cyfartal; Cymru iachach; Cymru gydnerth; a Chymru o gymunedau cydlynol.

## Cynllun Digartrefedd Deng Mlynedd i Gymru 2009-2019

Mae Cynllun Digartrefedd Deng Mlynedd i Gymru 2009-2019 Llywodraeth Cymru yn nodi pum prif amcan sydd wedi helpu i lunio'r strategaeth hon:

- Atal digartrefedd lle bynnag y bo modd
- Gweithio ar draws ffiniau sefydliadol
- Rhoi'r defnyddiwr gwasanaeth wrth wraidd darparu gwasanaeth
- Sicrhau cynhwysiad cymdeithasol a mynediad cyfartal at wasanaethau
- Gwneud y defnydd gorau o adnoddau.

## Cynlluniau a Deddfwriaeth Berthnasol Araill

Mae cynlluniau eraill a ystyriwyd fel rhan o ddatblygiad y strategaeth yn cynnwys:

- **Y Strategaeth Dai Genedlaethol 2010** - 'Gwella Bywydau a Chymunedau, Cartrefi yng Nghymru' - yn nodi'r heriau i gwrdd â gofynion tai Cymru, y blaenoriaethau a'r camau a gymerir.
- **Deddf Diwygio Lles 2012** - yn nodi cynigion Llywodraeth y DU ar gyfer diwygio'r system les i wella cymhellion gwaith, symleiddio budd-daliadau, ac i ymdrin â thegwch a chymhlethdod gweinyddol.
- **Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014** - yn darparu fframwaith cyfreithiol ar gyfer gwella llesiant pobl (oedolion a phlant) sydd angen gofal a chymorth, gofalwyr sydd angen cefnogaeth, a thrawsnewid gwasanaethau cymdeithasol yng Nghymru.
- **Nod y Ddeddf Rhentu Cartrefi (Cymru) 2016** yw ei gwneud yn symlach ac yn haws rhentu cartref, gan ddisodli darnau amrywiol a chymhleth o ddeddfwriaeth bresennol gydag un fframwaith cyfreithiol clir.
- **Cynllun Gweithredu Cysgu Allan 2018-20** - yn adlewyrchu pryder Llywodraeth Cymru a'i phartneriaid yn y cynnydd diweddar mewn cysgu allan, a'r flaenoriaeth a roddir i wrthdroi hyn.
- **Canllawiau Ymarfer 2018 Rhaglen Cefnogi Pobl** - a gyhoeddwyd gan Lywodraeth Cymru mewn cysylltiad â'r Grant Rhaglen Cefnogi Pobl.

## Defff Tai (Cymru) 2014



Cyflwynodd Deddf Tai (Cymru) 2014 ddiwygiad sylfaenol i gyfraith digartrefedd, gyda’r brif amcan o sicrhau bod pobl sy'n ddigartref neu'n wynebu digartrefedd yn cael cymorth cyn gynted â phosib.

Cyflwynodd y ddeddfwriaeth system newydd, gynhwysol a gynlluniwyd i helpu pawb sydd mewn perygl o ddigartrefedd, nid dim ond y rhai hynny sydd mewn grwpiau blaenoriaeth. Mae'n gosod dyletswydd gryfach ar awdurdodau lleol i atal digartrefedd (o fewn 56 diwrnod) ac yn caniatáu iddynt ddefnyddio llety addas yn y sector preifat.

Pwrpas y ddeddfwriaeth yw cyflawni:

- llai o aelwydydd yn dioddef trawma digartrefedd.
- mwy o gymorth, cyngor a gwybodaeth i aelwydydd a dderbyniodd gymorth cyfyngedig o dan y ddeddfwriaeth flaenorol.
- mwy o ffocws ar y defnyddiwr gwasanaeth, gan eu helpu i ymdrin ag achosion digartrefedd a gwneud penderfyniadau gwybodus o ran canfod atebion i'w problem tai.
- gwaith atal gwell, wedi'i dargedu'n well.
- defnydd mwy effeithiol o'r Sector Rhent Preifat fel ateb i ddigartrefedd.
- pwyslais cryfach ar gydweithredu a gweithio amlasiantaethol.
- darparu mwy o amddiffyniad i blant mewn aelwydydd digartref neu dan fygythiad o ddigartrefedd yn ogystal â chymorth ychwanegol i blant sy'n gadael gofal.

## Diffiniad o Ddigartrefedd

Mae Deddf Tai (Cymru) 2014 yn nodi'r diffiniad cyfreithiol o ddigartrefedd. Fel yr argymhellwyd gan Lywodraeth Cymru, at ddibenion y strategaeth hon, defnyddiwyd y diffiniad ehangach canlynol o ddigartrefedd:

***'Lle nad oes gan berson lety, neu lle nad yw eu daliadaeth yn ddiogel'.***

**Mae hyn yn cynnwys:**

- **Cysgu allan;**
- **Byw mewn tai anniogel/ dros dro (ac eithrio tenantiaid â thenantiaeth sicr/ tenantiaeth fyrddaliol sicr)**
- **Byw mewn hosteli tymor byr, llochesi nos, hosteli mynediad uniongyrchol;**
- **Byw mewn llety gwely a brecwast;**
- **Symud yn aml rhwng perthnasau/ ffrindiau;**
- **Methu aros mewn tai neu ddychwelyd i dai oherwydd amodau tai gwael; gorlenwi; tai anfforddiadwy; cam-drin domestig; aflonyddu; camdriniaeth feddyliol; corfforol a/neu rywiol;**
- **Llety nad yw'n diwallu anghenion pobl ag anableddau corfforol neu ddysgu, nam ar y synhwyrau neu gyflyrau iechyd meddwl;**
- **Yn cael eu bygwth â cholli eu cartref ac heb lety arall addas am unrhyw reswm, e.e. cam-drin domestig;**
- **Gadael ysbytai, dalfeydd yr heddlu, carchardai, y lluoedd arfog a sefydliadau eraill heb gartref i fynd iddo;**
- **Bod rhaid i chi adael gan deulu neu ffrindiau neu oherwydd bod y berthynas wedi torri;**
- **O fewn 56 diwrnod o ddiwedd y denantiaeth, wynebu achos meddiant neu fygythiad o gael eich troi allan.**

## Dyletswydd i Ddarparu Cyngor a Chymorth

**Mae gan y Cyngor ddyletswydd i ddarparu cyngor a chymorth tai i unrhyw un sy'n ei geisio. Gall hyn gynnwys amlinellu'r gwahanol opsiynau llety sydd ar gael, yn ogystal â chymorth i gael mynediad at fudd-daliadau perthnasol.**

## Dyletswydd i Atal Digartrefedd

**Mae'n ofynnol i'r Cyngor weithio gyda chleientiaid cymwys i geisio atal digartrefedd neu sicrhau llety arall. Gall hyn gynnwys hwyluso cyfryngu gydag aelodau o'r teulu neu ymdrin â materion fel ôl-ddyledion rhent.**

## Dyletswydd Dros Dro i Sicrhau LLety

**Mae gan y Cyngor ddyletswydd ddi-oed i sicrhau bod llety addas ar gael pan fydd ganddynt reswm dros gredu y gallai cleient fod yn gymwys i dderbyn cymorth, y gallai fod yn ddigartref, ac y gallai fod ag angen blaenoriaeth. Bydd hyn tra'n disgwyl i gwblhau ei ymholiadau.**

## Dyletswydd i Helpu Sicrhau Llety

**Lle na ellir atal digartrefedd, rhaid i'r Cyngor gynorthwyo pob aelwyd gymwys i ddod o hyd i lety arall addas. Gallai hyn gynnwys cynorthwyo mynediad i'r Sector Rhent Preifat, neu dai â chymorth ar gyfer y rheiny sy'n agored i niwed, fel y'u diffinnir gan y ddeddfwriaeth.**

## ANGEN BLAENORIAETH

Mae gan y cleientiaid canlynol angen blaenoriaeth am lety dan y dyletswyddau perthnasol: -

- **menywod beichiog;**
- **pobl sy'n gyfrifol am blant dibynnol;**
- **dioddefwyr cam-drin domestig;**
- **pobl ifanc 16-17 oed neu'n gadael gofal awdurdod lleol;**
- **personél y lluoedd arfog;**
- **yn agored i niwed o ganlyniad i amser yn y carchar neu reswm arall megis problemau iechyd meddwl, oedran neu gysgu ar y stryd.**

## Dyletswydd i Sicrhau Llety

**Lle na chanfuwyd llety arall o dan y dyletswyddau blaenorol, ni fyddai'r rhan fwyaf o bobl sengl heb ddibynyddion yn gymwys o dan y ddyletswydd hon, oni bai eu bod yn cael eu hystyried yn agored i niwed ac mewn angen blaenoriaeth. Er nad oes gan y Cyngor ddyletswydd i'w ddarparu, mae gan Gaerdydd ystod o lety ar gyfer pobl heb anghenion blaenoriaeth.**

# Cyd-destun Polisi Lleol




## Cynllun Llesiant Caerdydd 2018 - 2023

Mae Cynllun Llesiant Caerdydd yn nodi'r blaenoriaethau ar gyfer gweithredu ar draws y sector cyhoeddus yng Nghaerdydd am y pum mlynedd nesaf, wedi'i strwythuro o amgylch yr Amcanion Llesiant canlynol:

1. **Prifddinas sy'n gweithio i Gymru**
2. **Mae Caerdydd yn tyfu mewn ffordd gadarn**
3. **Cymunedau diogel, hyderus a grymusol**
4. **Mae Caerdydd yn lle gwych i fagu plant**
5. **Cefnogi pobl allan o dlodi**
6. **Mae Caerdydd yn lle gwych i fynd yn hŷn**
7. **Moderneiddio ac integreiddio ein gwasanaethau cyhoeddus.**




## Strategaeth Trais yn erbyn Menywod, Cam-drin Domestig a Thrais Rhywiol 2018-2023 Caerdydd a Bro Morgannwg

Noda'r strategaeth ranbarthol hon sut y bydd pob partner yn llunio a chyflenwi ymatebion i bob math o drais yn erbyn menywod, cam-drin domestig a thrais rhywiol ar draws y rhanbarth.

Y weledigaeth yw bod gan 'bobl sy'n byw, yn gweithio, yn astudio ac yn ymweld â Chaerdydd a Bro Morgannwg gyfle i fyw bywydau cadarnhaol, annibynnol heb gael eu heffeithio gan drais a chamdriniaeth’. Nod y strategaeth yw ymdrin ag atal, amddiffyn a chefnogi dioddefwyr a hefyd yr ymdrechion angenrheidiol i ymdrin â'r rhai sy'n gyfrifol.




## Cynllun Corfforaethol 2018-21 'Cyflawni Uchelgais Prifddinas'

Amlinella rhaglen bolisi 'Uchelgais Prifddinas' Cyngor Caerdydd bedair blaenoriaeth allweddol ar gyfer y ddinas:

- **Gweithio i Gaerdydd:** Sicrhau y gall ein holl ddinasyddion gyfrannu at lwyddiant y ddinas a manteisio ar hynny.
- **Gweithio i Gymru:** Mae angen prifddinas lwyddiannus ar Gymru lwyddiannus.
- **Gweithio i'r Dyfodol:** Rheoli twf y ddinas mewn ffordd gynaliadwy.
- **Gweithio i’r Gwasanaethau Cyhoeddus:** Sicrhau bod ein gwasanaethau cyhoeddus yn cael eu darparu’n effeithlon, effeithiol a chynaliadwy yn wyneb galw cynyddol a chyllidebau llai.


Mae cynyddu cyflenwad tai gwirioneddol fforddiadwy wrth wraidd dull y Weinyddiaeth o leihau costau i’r rhai sy'n dioddef o dlodi, ymdrin â digartrefedd ac amddifadrwydd, a chreu 'twf cynhwysol'. Mae'r ymrwymiadau'n cynnwys:

- adeiladu 1,000 o dai Cyngor newydd erbyn 2022 trwy Gynllun Byw Caerdydd a datblygu mentrau tai arloesol eraill.
- cynyddu'r gwaith o ddarparu tai newydd i ddiwallu anghenion tai trwy ddatblygu safleoedd strategol y Cynllun Datblygu Lleol, gan gynnwys 6,500 o dai fforddiadwy newydd erbyn 2026.

Noda Cynllun Corfforaethol Caerdydd 2018-21 sut y cyflawnir y blaenoriaethau hyn, ac mae eu darpariaeth wedi'i strwythuro o amgylch yr Amcanion Llesiant a nodir yng Nghynllun Llesiant Caerdydd.



# Cyd-destun Polisi Lleol




## Cardiff Housing Strategy 2016-2021

Y weledigaeth gyffredinol ar gyfer Strategaeth Dai Caerdydd yw **'i ddarparu'r canlyniadau tai gorau i bobl Caerdydd, gan weithio gyda phartneriaid i sicrhau y gall pob dinesydd gael mynediad at dai fforddiadwy a chynaliadwy o safon uchel'.**

Gwireddir y weledigaeth hon trwy gyflawni'r nodau allweddol canlynol:

- datblygu dealltwriaeth lawn o'r angen am dai yn y ddinas;
- defnyddio dull cydlynol sy'n seiliedig ar dystiolaeth i ddatblygu a gwella cartrefi yng Nghaerdydd;
- sicrhau y bodlonir anghenion tai y rhai mwyaf agored i niwed;
- gwella cymdogaethau a helpu i adeiladu cymunedau cryfach.




## Cardiff Rough Sleeper Strategy 2017-2020

Mae Strategaeth Cysgu Allan Caerdydd yn amlinellu sut y gall pobl sy'n cysgu allan dderbyn cefnogaeth, cyngor a chymorth digartrefedd priodol a hygyrch. Mae'r gweledigaeth 'i weithio tuag at ddiweddu cysgu allan yng Nghaerdydd' wedi'i ategu gan y nodau allweddol canlynol:

- i weithio i ddeall achosion cysgu allan;
- i weithio gyda phartneriaid i sicrhau bod cymorth yn cael ei gyfeirio tuag at derfynu, a pheidio ag atgyfnerthu, cysgu allan;
- i sicrhau ymyrraeth gynnar i atal y rhai sy'n cysgu allan rhag ymwreiddio;
- i ddatblygu ystod o atebion llety a chymorth wedi'u teilwra i anghenion unigol.

# Yr Adolygiad Digartrefedd

## Adolygiad Digartrefedd Caerdydd 2018

Mae Deddf Tai (Cymru) 2014 yn gosod dyletswydd ar awdurdodau tai lleol i gynnal adolygiad digartrefedd achlysurol i'w hardal, a datblygu strategaeth ddigartrefedd yn seiliedig ar y canfyddiadau.

Cynhwysa Adolygiad Digartrefedd Caerdydd 2018 ddadansoddiad manwl o'r data a gasglwyd gan y Gwasanaeth Dewisiadau Tai ynghylch lefelau ac achosion digartrefedd yng Nghaerdydd, ynghyd â throsolwg o'r gwasanaethau sydd ar waith i helpu'r rhai sydd mewn angen. Mae'n canolbwyntio ar y themâu allweddol o atal digartrefedd, sicrhau llety a darparu cefnogaeth.

## Mewnbwn Partneriaid a Chleientiaid

Cynhaliwyd yr adolygiad gan swyddogion cyfarwyddiaeth Pobl a Chymunedau'r Cyngor, gyda mewnbwn gan bartneriaid mewnol ac allanol i sicrhau y deëllir y blaenoriaethau'n llawn.

Cynhaliwyd ymarfer ymgynghori gyda rhanddeiliaid ym mis Ebrill 2018, gan ofyn am eu sylwadau ar y gwasanaethau digartref yng Nghaerdydd. Gofynnwyd i bartneriaid hefyd fwydo sylwadau'n ôl ar rannau o'r adolygiad wrth iddynt gael eu drafftio.

Ymgynghorwyd â phobl a gafodd fynediad uniongyrchol at wasanaethau digartrefedd am eu barn trwy arolwg cleientiaid. Gan weithio mewn partneriaeth â Chanolfan Ymchwil Caerdydd, datblygwyd holiadur yn cwmpasu cyngor; cefnogaeth i'r rhai a oedd dan fygythiad o ddigartrefedd; cefnogaeth i'r rhai a fu'n ddigartref neu sy'n ddigartref; a gwybodaeth ddemograffig.

Datblygwyd fersiynau papur ac ar-lein o'r arolwg. Rhoddwyd yr arolwg i gleientiaid a oedd wedi defnyddio'r Gwasanaeth Dewisiadau Tai yn ystod y flwyddyn ddiwethaf. Cynorthwywyd y rhai sy'n defnyddio'r gwasanaeth ar hyn o bryd ac yn mynychu apwyntiadau yn yr Hybiau neu'r Ganolfan Dewisiadau Tai gyda'r arolwg ar-lein. Gofynnwyd i sefydliadau partner sy'n gweithio gyda phobl ddigartref o fewn llety â chymorth gynorthwyo eu cleientiaid i gwblhau'r arolwg. Cynhaliwyd hyrwyddiad i gynulleidfaoedd targededig trwy sianelau cyfryngau cymdeithasol y Cyngor. Roedd yr arolwg yn fyw rhwng $30^{ain}$ Awst a $12^{fed}$ Hydref 2018, a derbyniwyd cyfanswm o 465 o ymatebion.

Darpara'r canfyddiadau o'r dadansoddiad data, yr ymgynghoriad partner a'r arolwg cleientiaid y sylfaen dystiolaeth ar gyfer datblygu'r strategaeth ddigartrefedd hon.



Canolfan Dewisiadau Tai

# Gwasanaethau Digartrefedd yng Nghaerdydd

## Canolfan Dewisiadau Tai a Gwasanaethau Arbenigol

### Asesiad Brysbennu a Rheng Flaen

Gwaith brysbennu gyda chleientiaid yn y dderbynfa i ddatrys eu problem tai. Bydd y swyddog brysbennu yn asesu p'un a yw'r cleient angen:

- cyngor a chymorth yn unig
- apwyntiad gyda swyddog achos digartrefedd
- llety brys ar unwaith

Cynhelir Asesiad Rheng Flaen gan swyddog achos digartrefedd. Mae'r swyddogion achos yn asesu'r achos ac yn gwneud penderfyniadau cyfreithiol dan Ddeddf Tai (Cymru) 2014.

Maent yn gweithio gyda'r cleient i helpu i liniaru eu problem dai, gan greu cynllun tai personol gyda chamau rhesymol i'r Cyngor a'r cleient eu cymryd. Caiff y cynllun ei deilwra i anghenion y cleientiaid.

### Tîm Atal a'r Sector Rhent Preifat

Mae'r Tîm Atal yn cynorthwyo cleientiaid i aros yn eu cartrefi drwy ystod o gymorth megis:

- Achubiaeth rent
- Cyfryngu
- Helpu i ddod o hyd i lety arall
- Cefnogaeth i ddod o hyd i lety yn y sector preifat

Mae'r Tîm Sector Rhent Preifat yn gweithio gyda landlordiaid sy'n cynnig:

- Gwasanaeth canfod a pharu tenantiaid ac ymweld â'r eiddo gyda chydymaith
- Archwiliad eiddo, rhestr eiddo a gwiriadau System Mesur Iechyd a Diogelwch
- Rheoli Cyfrifon Pwrpasol sy'n cynnig cefnogaeth, cyfryngu a chyngor i'r landlord a'r tenant
- Gwasanaeth Budd-dal Tai a thaliadau uniongyrchol pwrpasol sy'n cael ei dracio'n gyflym .

### Gweithwyr Cefnogi Tai

Mae'r project Gweithiwr Cefnogi Tai yn cynnig cymorth i gleientiaid digartref sy'n agored i niwed a chydag anghenion cymorth neu anghenion iechyd cymhleth sydd dan fygythiad o ddigartrefedd neu sy'n byw yn Llety Prydles Dros Dro.

Maent yn helpu i atal digartrefedd trwy:

- Gyfryngu â landlordiaid presennol
- Cynorthwyo gyda materion dyled neu gyllidebu
- Helpu i ddod o hyd i lety addas arall
- Ailsefydlu cleientiaid sydd mewn Llety Dros Dro i mewn i lety rhent preifat

### Tîm Dyled a Thai

Mae'r Tîm Dyled a Thai yn rhoi cyngor arbenigol i unrhyw un a allai fod yn cael anawsterau gyda'u rhent neu forgais, ac mae'n ymgymryd ag amrywiaeth o waith atal gan gynnwys:

- Mwyafu incwm
- Cyngor ar ddyled a chyllidebu
- Negodi gyda chwmnïau morgais a chyfreithwyr
- Cysylltu â Chymdeithasau Tai a Chyngor Caerdydd ynghylch cynlluniau ad-dalu yn achos ôl-ddyledion rhent
- Cynorthwyo Tenantiaid Preifat sydd dan fygythiad o ddigartrefedd oherwydd adfeddiannu landlord neu anghydfod gyda landlord
- Eiriolaeth yn y llys ar gyfer perchnogion tai a thenantiaid Cymdeithas Tai

## Tîm Llety Dros Dro

Yn cynorthwyo cleientiaid â llety brys a llety dros dro. Y tîm yw'r mynediad pwynt sengl i mewn i'r canlynol:

- Porth Pobl Sengl
- Porth Teulu
- Porth Pobl Ifanc

Mae'r tîm yn darparu llety addas yn dibynnu ar anghenion y cleientiaid ac yn rhoi cyngor ar opsiynau symud ymlaen ac atebion tai parhaol.

## RISE Caerdydd

Gwasanaeth 24/7 a ddarperir gan Gymorth i Fenywod mewn partneriaeth â Bawso a Llamau, ar gyfer dioddefwyr trais yn erbyn menywod, cam-drin domestig a thrais rhywiol.

Mae tîm o eiriolwyr yn darparu gwasanaeth brysbennu i asesu anghenion dioddefwyr am gymorth, gan gynnwys:

- Cyngor diogelwch
- Cymorth gyda darparu mesurau diogelwch yn y cartref
- Mynediad i amrywiaeth o lety argyfwng/brys
- Tai arbenigol a chyngor cyfreithiol
- Cymorth plant a phobl ifanc arbenigol
- Cydweithio â Heddlu De Cymru i ymdrin â materion cam-drin domestig gan gynnwys ymweliadau ar y cyd ac adolygiad o'r llwybr ar gyfer Hysbysiadau Amddiffyn yr Heddlu (PPN)
- Gwybodaeth am fudd-daliadau a lles
- Gwasanaethau iechyd a chymorth ar gyfer anghenion cymhleth
- Mynediad i ystod o ymyriadau therapiwtig, gwaith grŵp a rhaglenni hunangymorth

## Basement

Mae Basement, a leolir yn Heol Charles, yn gydweithrediad rhwng Gwasanaethau Plant a Gwasanaethau Digartrefedd y Cyngor a chymorth trydydd sector gan Llamau.

Mae'n darparu cyngor cyfrinachol am ddim i bobl ifanc rhwng 16 a 25 oed sy'n ddigartref neu'n wynebu digartrefedd, gan gynnwys:

- Cyngor tai a lles
- Asesiadau digartrefedd
- Cyfryngu teuluol gyda'r nod o atal digartrefedd
- Cymorth i sefydlu datrysiadau tai a chymorth addas

# Gwasanaethau i Cysgu Allan

**Gwasanaethau Wallich**

Tîm Ymyrraeth Cysgu Allan

Mae'r gwasanaeth hwn a weithredir gan The Wallich mewn partneriaeth â thîm Allgymorth Digartrefedd y Cyngor, yn cael ei adnabod yn gyffredin fel 'Sesiynau Brecwast'. Aiff y staff allan bob bore i ymgysylltu â phobl sy'n cysgu allan trwy ddarparu brecwast ac eitemau lles eraill.

Gwasanaeth Atebion Caerdydd

Wedi'i leoli yng Nghysgodfa Nos Wallich, mae Gwasanaeth Atebion Caerdydd yn darparu cyfleuster galw heibio amgen i bobl sy'n cysgu allan nad ydynt yn cael mynediad at wasanaethau eraill.

**Canolfan Ddydd Huggard**

HUGGARD, Helping The Homeless

Mae Canolfan Dydd Huggard yn darparu cyfleusterau hanfodol i bobl ddigartref sy'n creu'r cyfle i ymgysylltu â hwy mewn awyrgylch cyfeillgar cynnes, er mwyn helpu i dorri eu cylch o ddigartrefedd.

Ymhlith y Gwasanaethau ceir:

- Cinio am ddim a chost isel
- Cyfleusterau dillad, golchi dillad a hylendid personol am ddim
- Cyfeiriad 'dan ofal'
- Darparu ystod o wiriadau lles
- Sesiynau gweithgaredd
- Gwasanaeth Eirioli
- Gwasanaeth camddefnyddio sylweddau a chyfnewid nodwyddau

**Tîm Digartrefedd Allgymorth a Chanol y Ddinas**

Mae Tîm Digartrefedd Allgymorth a Chanol y Ddinas y Cyngor yn ymgysylltu â phobl sydd ar hyn o bryd, mewn perygl o ddod, yn cysgu allan. Mae'r tîm yn gweithio ochr yn ochr ag asiantaethau allgymorth eraill i:

- Roi cymorth i gael mynediad i lety
- Darparu mynediad at wasanaethau eraill megis iechyd a gofal cymdeithasol
- Cwblhau asesiadau digartrefedd statudol sy'n darparu mynediad i wasanaethau digartrefedd i gleientiaid
- Gweithiwr Cymdeithasol a Nyrs Digartref
- Amrywiaeth o glinigau ymweld a gwasanaethau iechyd

**Project Bws**



Cyflwynir gan Fyddin yr Iachawdwriaeth o nos Sul i nos Iau bob wythnos. Mae'r Gwasanaeth yn darparu:

- Bwyd
- Mynediad at gyngor
- Eiriolaeth
- Cefnogaeth feddygol
- Mynediad i lety

**Gwasanaeth Ailgysylltu**

Mae'r Gwasanaeth Ailgysylltu a ddarperir gan Fyddin yr Iachawdwriaeth yn cefnogi unigolion heb gysylltiad lleol i ddychwelyd i'w hawdurdod cartref mewn modd rheoledig, neu i gyflawni ateb llety cadarnhaol arall.

Gellir darparu llety ar gyfer unigolyn heb gysylltiad lleol naill ai am un noson neu dros dro trwy hepgoriad i gael mynediad at ddarpariaeth arbenigol a ddarperir yng Nghaerdydd yn unig, neu oherwydd rhesymau gwendidau llethol, iechyd neu ofal cymdeithasol.

# Hybiau, Cyngor a Gwasanaethau Cymorth

### Tîm Cyngor Ariannol

Wedi'i leoli yn yr Hyb Canolog gyda thimau allgymorth ar draws Hybiau Dinas, Banciau Bwyd a Chanolfan Byd Gwaith.

Mae'r tîm yn darparu:

- Cyngor a chymorth gydag ôl-ddyledion rhent, treth gyngor neu filiau cyfleustodau
- Cymorth i gyllidebu
- Nodi a gwneud cais am fudd-daliadau, grantiau a gostyngiadau perthnasol
- Mynediad at gynlluniau tlodi tanwydd.
- Helpu agor cyfrif banc
- Talebau Banc Bwyd

### Gwasanaeth Cynghori Caerdydd

Darperir Gwasanaeth Cynghori Caerdydd gan Gyngor ar Bopeth a Speakeasy. Caiff ei ariannu gan y cyngor i ddarparu cyngor annibynnol, cyfrinachol a diduedd ar nifer o faterion, gan gynnwys:

- Budd-daliadau lles
- Dyledion/tai
- Perthnasau teuluol
- Cyfraith cyflogaeth
- Mewnfudo
- Gwahaniaethu
- Materion defnyddwyr

### Gwasanaethau i Waith

Mae'r Gwasanaeth i Waith yn darparu sesiynau galw heibio am ddim mewn lleoliadau ar draws Caerdydd i drigolion sy'n chwilio am waith neu sydd eisiau uwch-sgilio. Mae'r cymorth a ddarperir yn cynnwys:

- Cymorth gydag ysgrifennu CV, ceisiadau am swydd, ffurflenni a llythyrau ategol
- Chwilio am swyddi a sefydlu cyfrif 'Universal Job Match'
- Cymorth Digidol ar gyfer Credyd Cyffredinol
- Hyfforddiant Sgiliau

### Cymorth Fel Bo'r Angen

Mae Cymorth Fel Bo'r Angen yn darparu 2298 o unedau cymorth sy'n gysylltiedig â thai i bobl sy'n agored i niwed ar draws pob math o denantiaeth sydd mewn perygl o fod yn ddigartref. Mae'r cymorth yn cynnwys:

- Cyllidebu
- Materion tenantiaeth
- Eiriolaeth
- Rheoli arian/ Cyngor Dyled
- Mynediad i hyfforddiant a chyflogaeth
- Datblygu sgiliau byw'n annibynnol

### Tîm Cyswllt Landlordiaid

Mae'r tîm Cyswllt Landlordiaid, sydd wedi'i leoli yn adran Budd-daliadau Cyngor Caerdydd, yn darparu cyngor a chymorth i landlordiaid preifat, gan weithio gyda hwy i annog rhentu eiddo i hawlwyr budd-dal.

Mae eu gwaith yn cynnwys:

- Cyngor tai sylfaenol
- Cyngor sylfaenol ar y Dreth Gyngor
- Atgyfeiriadau i wasanaethau'r Cyngor a sefydliadau arbenigol
- Atal dadfeddiannau diangen
- Cyngor Credyd Cyffredinol
- Diogelu a Thaliadau Uniongyrchol

### Gweithdai Canfod Cartref

Mae gweithdai canfod cartref yn helpu ac yn cynorthwyo cleientiaid digartref, a'r rhai sy'n chwilio am dai, i chwilio am lety yn y Sector Rhent Preifat yng Nghaerdydd a'r ardaloedd cyfagos.

Maent yn gweithredu ym mhob Hyb Dinesig, a hefyd o leoliadau eraill yn y dyfodol agos.

### Tîm Atebion Tai

- Yn darparu cyngor ar dai
- Yn cynorthwyo ymgeiswyr sy'n ymuno â Rhestr Aros Tai Caerdydd
- Yn cynorthwyo cleientiaid gydag adolygiadau o gynlluniau gweithredu digartrefedd
- Atgyfeiriadau i wasanaethau tai a phartneriaid eraill

# Dywedodd ein Partneriad

Roedd consensws sylweddol ar y materion a godwyd gan ein partneriaid, ac mae eu sylwadau yn adlewyrchu canfyddiadau'r adolygiad data. Nodir crynodeb o'r rhain isod:

**Diwygio Lles** – Nodwyd Credyd Cyffredinol, Capio Budd-dal, tlodi mewn gwaith a chontractau oriau sero i gyd fel rhesymau dros y cynnydd mewn digartrefedd.

**Anhawster Cael Mynediad i'r Sector Rhent Preifat** - roedd lefelau rhent uchel yng Nghaerdydd a'r maint a swm o lety myfyrwyr sy'n bodoli, ynghyd â deddfwriaeth newydd megis Rhentu Doeth Cymru, yn peri pryder. Hefyd nodwyd diffyg tai person-sengl a'r angen am warantwyr. Mae angen tybiedig i gyflymu'r broses ymgeisio bond i helpu pobl i ddod o hyd i lety rhent preifat.

**Methiant teuluolol a pherthnasau** – ystyriwyd y rhain, ynghyd â thrais domestig, fel achosion arwyddocaol o ddigartrefedd. Ystyriwyd bod profedigaeth hefyd yn achos allweddol digartrefedd.

**Ymddygiad a Heriau Personol** - roedd bob partner yn cydnabod bod materion personol yn achos allweddol digartrefedd: roedd hyn yn cynnwys iechyd meddwl, anableddau dysgu a dibyniaeth ar sylweddau. Roedd y materion hyn yn ei gwneud hi'n anodd i gleientiaid lywio drwy'r llwybr digartrefedd. Roedd ymddygiad troseddol hefyd yn broblem ac i'r cleientiaid hyn, roedd symud ymlaen yn arbennig o heriol.

**Gwasanaethau ar gyfer Anghenion Uchel a Chleientiaid Anhrefnus** - roedd llawer o bartneriaid yn cydnabod cymhlethdod cynyddol cleientiaid, gan arwain at nifer uchel o achosion o droi allan o hosteli. Gwelwyd ei bod yn bwysig gwneud mwy i gyfuno â gwasanaethau iechyd. Mynegwyd pryderon hefyd am gleientiaid bregus a'r risg o gogio ac ecsbloetio eraill.

**Diffyg Opsiynau/ Cymorth Symud Ymlaen** - gwelwyd diffyg llety symud ymlaen ac yn enwedig llety cefnogol eilaidd priodol fel materion allweddol, fel ag yr oedd cymorth digonol i fyw'n annibynnol.

Roedd **Cardota a Diwylliant Stryd** yn broblemau yr ystyriai partneriaid oedd yn cadw pobl ar y strydoedd.

Roedd rhai partneriaid yn hynod o falch o wasanaethau'r **Ganolfan Dewisiadau Tai**. Gwelwyd lleoliad yr adeilad a disgwyliadau hir am wasanaeth fel heriau. Ystyriwyd bod yr angen am ddull mwy gwybodus o ymdrin â trawma a oedd yn canolbwyntio ar yr unigolyn yn allweddol i wella canlyniadau.

**Yr Hybiau** – roedd gwerthfawrogiad o'r cyngor a geir yn yr Hybiau, gan gynnwys Cyngor i Waith. Roedd sawl partner yn credu y byddai gwasanaethau tai a digartrefedd mwy lleol yn ddelfrydol, gan y byddai hyn yn cynyddu hygyrchedd a gwelededd y gwasanaeth. Gwelwyd bod hyfforddi staff yn allweddol i lwyddiant hyn o beth.

**Gwasanaethau Atal** - roedd y rhan fwyaf o bartneriaid yn cydnabod yr angen am waith atal mwy rhagweithiol. Amlygwyd mwy o gymorth ariannol i'r rhai nad oedd angen llety â chymorth, mwy o achub rhent ar gam cynharach, a chyfnodau hwy o gymorth fel bo'r angen.

**Cyllid** - gwelwyd grantiau a phrojectau arloesi fel arfer da gan rai partneriaid. Mynegodd eraill bryderon ynghylch y diffyg sicrwydd yn y trefniadau cyllido.

# Arolwg Digartrefedd 2018

## Cyngor

**89%**

Roedd 89% yn fodlon â'r cyngor a gafwyd yn gyffredinol

**68%**

Roedd 68% o'r farn bod y cyngor a gawsant gan y Cyngor a'i bartneriaid yn RHAGOROL neu'n DDA

## Bygythiad o Ddigartrefedd

Cleientiaid dan fygythiad o ddigartrefedd a dderbyniodd help gan y Cyngor

Roedd **96%** yn fodlon â'r cymorth a gawsant gan y Cyngor.

## Digartrefedd

Cynigiwyd Llety Dros Dro i **71 %**

Roedd **86%** yn fodlon â'u Llety Dros Dro

**83%**

Roedd 83% yn hapus â'r cymorth a gawsant gan y Cyngor i ddod o hyd i lety parhaol

# Arolwg Digartrefedd

# Sylwadau Cleient

"Rwy'n credu bod y cyngor yn arbennig.
Roedd yn wych i mi!”

"Roeddwn mewn sefyllfa ofnadwy, helpodd y Cyngor fi a'm teulu. Byddaf bob amser yn ddiolchgar.”

"Mae gen i swydd a byddai wedi bod yn ddefnyddiol cael apwyntiad a drefnwyd ymlaen llaw er mwyn i mi allu cynllunio o amgylch gwaith."

“Mae'r tîm Allgymorth Tai yn cysylltu â phobl i helpu i leddfu ofnau.”

"Roeddwn i'n teimlo bod y broses yn hir, ond daeth yn well a rhedeg yn fwy llyfn pan welais y swyddog achos."


"Byddai cael yr un swyddog tai trwy gydol y broses yn well."

"Hysbysebu mwy ar y gwasanaethau.
Nid oeddwn yn gwybod lle’r oedd

"Roedd hi'n anodd cysylltu ar brydiau. Byddai diweddariadau rheolaidd yn ystod y broses o gymorth.”

"Rhowch fynediad at ffurflenni cais a chyngor yn yr Hybiau, gan fod amseroedd aros hir yn y Ganolfan Dewisiadau Tai."

# Y Galw am Wasanaethau




## Ceisiadau am Help

Mae Cyngor Caerdydd wedi gweld cynnydd o 68% mewn ceisiadau am gymorth dros y cyfnod Ebrill 2015 i Fawrth 2018. Os bydd y galw yn cynyddu yn unol â blynyddoedd blaenorol, gallai'r Cyngor ddisgwyl derbyn bron i 6,000 o geisiadau y flwyddyn erbyn 2019/20.

Cynyddodd nifer yr ymgeiswyr a gafodd eu bygwth â digartrefedd o 762 i 1,544 (103%) dros y cyfnod, tra bod y rhai a gafwyd yn ddigartref wedi codi o 1,274 i 1,976 (55%) a'r nifer a gafwyd yn ddigartref ac mewn angen blaenoriaeth wedi codi o 571 i 669 (17%).

## Y Galw am Wasanaethau Cynghori


Cynyddodd y nifer a oedd yn ceisio cyngor yn ymwneud â thai yn yr Hybiau Cymunedol o 23%, o 14,707 i 18,103 dros y cyfnod Ebrill 2015 i Fawrth 2018.

Hefyd mae nifer uchel o bobl yn mynychu'r Ganolfan Dewisiadau Tai. Yn 2017/18, cofnodwyd 11,154 o gwsmeriaid.

## Goblygiadau'r Cynnydd yn y Galw

Os bydd cynnydd cynyddol yn y tueddiadau presennol yn parhau, mae risg na fydd gwasanaethau'n gallu cwrdd â'r galw. Mae Caerdydd wedi cydnabod yr angen i fuddsoddi mewn ymyrraeth gynharach i ymdrin â digartrefedd cynyddol. Yn 2018/19, cafwyd cyllid ychwanegol ar gyfer gwasanaethau digartrefedd, a bydd yn canolbwyntio ar gyngor a gwaith atal. Mynegodd y partneriaid bryder ynghylch sefydlogrwydd a pharhad cyllid.

# Achosion Digartrefedd yng Nghaerdydd




Yn 2017/18 prif achos y bygythiad o ddigartrefedd oedd ôl-ddyledion morgais neu rent, gyda 707 o achosion wedi'u cofnodi, cynnydd o 247% ar y flwyddyn flaenorol. Yn rhannol, mae'r cynnydd hwn o ganlyniad i well cofnodi o’r achosion, ond mae hefyd yn adlewyrchu pwysau diwygio lles.

Yr achos mwyaf o ddigartrefedd oedd rhieni, perthnasau neu ffrindiau nad oeddent bellach yn barod neu'n gallu eu lletya, gyda 477 o achosion wedi'u cofnodi. Roedd colli Llety Rhent neu Gysylltiedig hefyd yn achos arwyddocaol o ddigartrefedd yn 2017/18. Mae hyn yn cynnwys y rhai sy'n gadael llety Gwasanaeth Ceiswyr Lloches Cenedlaethol, ond mae tystiolaeth hefyd bod landlordiaid yn gadael y farchnad rhent.

## Barn Cleientiaid

Nododd yr arolwg cleientau dueddiadau tebyg. Y rheswm mwyaf cyffredin a roddwyd i achos digartrefedd gan ymatebwyr oedd nad oedd rhieni neu berthnasau bellach yn barod neu'n gallu eu lletya, a’r rheswm dilynol oedd bod y landlord eisiau’r eiddo yn ôl.

Fodd bynnag, dim ond rhan o'r darlun y mae'r wybodaeth hon yn ei roi. Mae achosion digartrefedd yn gymhleth ac yn aml-haenog. Yn aml, mae amgylchiadau unigol fel pryderon iechyd a chamddefnyddio sylweddau yn cyd-fynd â materion cymdeithasol ehangach megis diwygio lles, gan arwain at rywun yn colli eu cartref.

Pan ofynnwyd am faterion personol yn yr arolwg cleientiaid, nododd un rhan o dair o'r ymatebwyr fod problemau iechyd meddwl wedi cyfrannu at eu sefyllfa dai.

## Ymgynghoriad Partner

Gofynnwyd i bartneriaid am unrhyw sylwadau a gafwyd ynghylch achosion digartrefedd yng Nghaerdydd ac unrhyw dueddiadau a nodwyd ganddynt. Cadarnhaodd y partneriaid fod diwygio lles a phroblemau gyda'r sector rhent preifat yn broblemau allweddol. Cyfeiriodd y partneriaid hefyd at faterion personol megis iechyd meddwl a dibyniaeth ar sylweddau fel materion allweddol.


# Ymyrraeth Gynnar

Mae Cyngor Caerdydd wedi ymrwymo i ddarparu gwasanaeth tai cyfannol lle mae cymorth yn hawdd i'w gael, ac nid dim ond ar adeg argyfwng. Mae gwasanaeth cydgysylltiedig sy'n canolbwyntio ar y person yn rhan annatod o gyflwyno'r canlyniadau gorau i gleientiaid. Ystyrir unrhyw faterion sylfaenol a allai fod yn cyfrannu, neu a fydd yn cyfrannu yn y dyfodol, at sefyllfa dai yr unigolyn.

Nodwyd ymyrraeth gynnar fel allwedd i ymdrin â digartrefedd yn llwyddiannus ac felly mae'n hanfodol bod pobl yn ymwybodol o'r gwasanaethau a'r cymorth sydd ar gael.

Yn 2017/18, atalwyd yn llwyddiannus 73% o'r holl achosion lle y derbyniwyd y ddyletswydd i atal. Mae hyn yn cynrychioli gwelliant o 40% ar y flwyddyn flaenorol.


Cynhyrchodd ymyrraeth a chyngor cynnar ganlyniadau llwyddiannus, lle'r oedd cleientiaid wedi ymgysylltu â'r gwasanaeth; fodd bynnag, mewn llawer o achosion nid oedd cyfle i weithio gyda chleientiaid cyn iddynt ddod yn ddigartref.




**GWEITHREDU**

**Datblygu'r Gwasanaeth Atal ymhellach, gan gynnig ystod eang o ymyriadau wedi'u teilwra i anghenion unigol.**


# Ymyrraeth Gynnar




**Ar draws Cymru gyfan, y gyfradd o atal llwyddiannus oedd 66.4%, canlyniad Caerdydd oedd y trydydd uchaf, gyda chyfradd atal o 72.9%.**

**Helpodd Caerdydd fwy o gleientiaid (1,544) gyda gwasanaethau atal nag unrhyw awdurdod arall yng Nghymru, 17% o holl ganlyniadau Cymru gyfan.**

Mae'r graff cyfagos yn dangos achosion digartrefedd yn 2017/18, wedi'u dadansoddi yn ôl cleientiaid a oedd yn ddigartref ar unwaith, o'u cymharu â'r rheiny a oedd yn ddigartref yn dilyn gwaith atal aflwyddiannus.




I'r mwyafrif o gleientiaid a ddaeth yn ddigartref yn 2017/18, ni fu cyfle ar gyfer gwaith atal. Yn achos rhai grwpiau, fel dioddefwyr cam-drin domestig, mae'n ddealladwy na ellir cael mynediad at gymorth tan y pwynt argyfwng. I eraill, gallai gwell ymwybyddiaeth o wasanaethau fod wedi atal digartrefedd. Roedd atal yn anodd hefyd i gyn-garcharorion a ffoaduriaid. Caiff y rhain eu harchwilio yn nes ymlaen yn y strategaeth. Mae angen hysbysebu'r gwasanaethau sydd ar gael yn well i'r rhai y gallai ymyrraeth gynnar eu cynorthwyo.

# Ymyrraeth Gynnar

Arweiniodd y galw uchel am wasanaethau at amseroedd aros hirach yn y Ganolfan Dewisiadau Tai. Gan ddefnyddio ffigyrau cyfartalog o fis Mawrth 2018, gall cyfanswm y cyfnod y gall cleient ei dreulio yn y Ganolfan Dewisiadau Tai, o gyflwyno yn y dderbynfa i adael eu cyfweliad cyffredinol, fod dros dair awr. Gallai mwy o ddefnydd o'r Hybiau ar gyfer cyngor tai leihau amseroedd aros yn y Ganolfan Dewisiadau Tai a helpu i wella boddhad cwsmeriaid.

## Sylwadau Partneriaid

Nododd partneriaid amseroedd aros hir a lleoliad y Ganolfan Dewisiadau Tai fel achosion o bryder, ac maent yn croesawu'r defnydd o Hybiau Cymunedol i gynorthwyo i atal digartrefedd.

**GWEITHREDU**

- **Datblygu gwasanaeth cyngor digartrefedd a thai arbenigol mewnol a chynnig mynediad digidol drwy Skype ac ar-lein.**
- **Darparu cyngor ar dai a digartrefedd ledled y ddinas trwy'r Hybiau Cymunedol.**
- **Cynnig apwyntiadau atal yn nhŷ'r cleient ei hun neu mewn Hybiau Cymunedol.**

***Byddwn Yn:***

**adeiladu ar lwyddiant y gwaith atal presennol trwy ddatblygu gwasanaethau atal mwy penodol a thargededig.**

### Astudiaeth Achos

Roedd Miss S yn byw mewn llety rhent preifat a rhoddwyd hysbysiad iddi oherwydd dyledion rhent. Nid oedd yn gallu cyflwyno'n bersonol yn y Ganolfan Dewisiadau Tai gan fod ganddi broblemau iechyd meddwl.

Trefnwyd ymweliad cartref a sicrhaodd y swyddog achos Miss S y byddent yn cysylltu â'r asiant gosod ar ei rhan ac y byddai'n cynorthwyo i gyfryngu ei phroblem dai. Cwblhawyd datganiad ariannol ac er bod Miss S yn derbyn ei hawl i gael budd-dal llawn, nid oedd fawr o hyblygrwydd yn ei chyllideb. Rhoddodd hyn deimlad parhaol iddi o ofn a phryder ynghylch colli ei thenantiaeth.

Rhoddwyd cyngor cyllidebu i Miss S, gan gynnwys sut i sicrhau ei bod hi'n talu biliau yn llawn ac ar amser. Roedd hyn yn helpu i liniaru ei straen a'i phryder. Cysylltodd y swyddog achos ag asiant gosod Miss S, a ddywedodd fod y landlord yn agored i achub y denantiaeth pe bai'r ôl-ddyledion rhent yn cael eu talu.

Cynghorwyd yr asiant a'r landlord y gallai'r Cyngor gynorthwyo Miss S gyda'r Cynllun Achub Rhent a darparu cymorth tenant parhaus.

Yn dilyn asesiad fforddiadwyedd, cynhaliwyd trafodaethau a chytunodd y landlord i roi'r gorau i unrhyw gamau cyfreithiol a chyhoeddi cytundeb tenantiaeth newydd. Yn bwysicach fyth, cytunodd y landlord i ostwng rhent misol Miss S.

# Materion Allweddol

## Materion Ariannol

Mae effaith diwygio lles, gan gynnwys gweithredu’r Credyd Cyffredinol, ynghyd â thlodi mewn gwaith a chontractau oriau sero yn arwain at i fwy o bobl ddioddef anawsterau ariannol yng Nghaerdydd. Mewn nifer cynyddol o achosion, mae hyn yn effeithio ar eu gallu i dalu eu rhent. Gall newidiadau budd-daliadau barhau i effeithio ar wasanaethau digartrefedd yn enwedig gan fod budd-daliadau yn dod yn fwy amodol a chymhleth.

Am y cyfnod rhwng Ebrill 2015 a Mawrth 2018, gwelodd Cyngor Caerdydd gynnydd o 762% yn nifer y cleientiaid sy'n wynebu anawsterau wrth dalu eu rhent neu forgais. Cododd nifer yr achosion o 82 yn 2015/16 i 707 yn 2017/18. Mae hyn yn rhannol oherwydd gwell cofnodi o achosion.

Er bod cynnydd sylweddol wedi bod yn y galw am y gwasanaeth oherwydd problemau ariannol, cafodd Cyngor Caerdydd lwyddiant sylweddol yn y maes hwn, gyda 93% o'r holl gleientiaid a ymgymerodd â gwasanaethau wedi eu hatal rhag dod yn ddigartref yn 2017/18. Nodwyd bod ymyrraeth gynnar yn allweddol i'r llwyddiant hwn.

### Ôl-ddyledion Rhent Sector Preifat

Y grŵp mwyaf a effeithir gan ôl-ddyledion rhent yw'r rhai sy'n rhentu yn y sector preifat. Defnyddir amryw o fesurau i atal y cleientiaid hyn rhag dod yn ddigartref. Mae hyn yn cynnwys:

### Cynllun Diogelu

Gall tenantiaid sy'n derbyn Budd-dal Tai fod mewn perygl o ddigartrefedd trwy gamreoli eu cyllid, gan arwain at fethu taliadau rhent. Mewn achosion o'r fath, efallai nad yw talu budd-dal tai yn uniongyrchol i denantiaid er lles iddynt bob amser, felly mae Cyngor Caerdydd wedi datblygu Cynllun Diogelu i'w cynorthwyo. Dan y cynllun gellir talu budd-dal tai yn uniongyrchol i landlord.

Gellir gwneud taliadau uniongyrchol i landlord o dan y Credyd Cyffredinol. Dylid hyrwyddo ymwybyddiaeth o'r gwasanaeth hwn ymhellach er mwyn sicrhau bod landlordiaid preifat yn ymwybodol ohono.

**Achub Rhent**

Gellir gwneud taliad achub rhent i gleientiaid ag angen blaenoriaeth sydd wedi cronni ôl-ddyledion rhent mewn tenantiaethau tai cymdeithasol neu lety preifat sy'n bygwth eu tenantiaeth.

At ei gilydd, cynyddodd y dyfarniadau Achub Rhent dros y cyfnod Ebrill 2015 a Mawrth 2018 o 25%. Er y gwneir y rhan fwyaf o ddyfarniadau i'r rheiny mewn llety rhent preifat, cafwyd cynnydd sylweddol mewn dyfarniadau a wnaed i denantiaid tai cymdeithasol, o 6 i 78.

### Taliadau Tai yn ôl Disgresiwn

Mae cymorth ariannol a ddarperir trwy Fudd-dal Tai neu’r Credyd Cyffredinol yn y Sector Rhent Preifat wedi'i gyfyngu i'r gyfradd Lwfans Tai Lleol ac efallai na fydd yn cwmpasu holl rent y cleient. Os na allant fforddio'r diffyg, gallant wneud cais am Daliad Tai yn ôl Disgresiwn trwy Wasanaeth Budd-dal y Cyngor.

# Materion Allweddol

## Dyledion Rhent Tai Cymdeithasol

Yn 2017/18, cafodd 150 o gleientiaid sy'n byw mewn tai cymdeithasol eu bygwth â digartrefedd oherwydd ôl-ddyledion rhent. Gyda newidiadau i fudd-daliadau lles, mae llawer o landlordiaid cymdeithasol yn newid y ffordd y maent yn rheoli ôl-ddyledion rhent. Nodwyd bod ymyrraeth gynnar yn y maes hwn yn hanfodol, oherwydd er efallai na ystyrir symiau bychain o ôl-ddyledion yn broblemus, gallant gynyddu yn fuan.

Mae gwaith partneriaeth gwell rhwng Gwasanaeth Cyllid Tai y Cyngor a'r Gwasanaeth Dewisiadau Tai wedi sicrhau bod pob achos lle mae bygythiad o ddigartrefedd oherwydd dyledion rhent yn cael ei gyfeirio yn gynnar a chyn yr argyfwng. Gwelir bod yr ymyrraeth gynnar hon yn cynhyrchu canlyniadau llwyddiannus. Yn 2017/18, atalwyd pob cleient a oedd mewn perygl o fod yn ddigartref trwy ôl-ddyledion rhent cymdeithasol, ac a oedd wedi ymgysylltu â'r Gwasanaeth Dewisiadau Tai, rhag dod yn ddigartref.

## Ôl-ddyledion Morgais

Os yw cleient yn cael trafferth talu eu morgais, bydd eu benthyciwr yn hysbysu'r Gwasanaeth Dewisiadau Tai yn uniongyrchol fel y gellir cynnal gwaith atal. Mae staff o fewn y tîm Dyled a Thai wedi'u hyfforddi'n llawn i gydgysylltu â chwmnïau morgais a chyfreithwyr ynglŷn ag opsiynau caledi, estyniadau cyfnodau, trefniadau talu a chynorthwyo cleientiaid gydag achosion llys.

Yn 2017/18, rhwystrwyd 76% o'r cleientiaid a gyflwynodd i'r gwasanaeth gydag ôl-ddyledion morgais rhag dod yn ddigartref.

### Astudiaeth Achos

Cyflwynodd Mrs D yn y Ganolfan Dewisiadau Tai oherwydd ôl-ddyledion morgais a oedd wedi cronni yn dilyn marwolaeth ei gŵr. Dywedodd Mrs D fod ganddi broblemau iechyd meddwl difrifol a hefyd rhai problemau iechyd corfforol. Roedd hi'n ddibynnol ar incwm a oedd yn cynnwys Cymhorthdal Incwm, Lwfans Gofalwr (gan ei bod yn gofalu am ei mam oedrannus) a Lwfans Byw i'r Anabl.

Roedd gan Mrs D falans morgais isel iawn, ond roedd cyfnod ei morgais wedi dod i ben ac felly roedd y swm llawn yn ddyledus ar unwaith. Gan nad oedd hi wedi gallu talu'r swm hwn, rhestrwyd gwrandawiad llys am feddiant. Trwy drafodaethau ymlaen llaw gyda'r benthyciwr, llwyddodd y tîm Dyled a Thai i gael gohiriad 56 diwrnod ar yr achos llys, er mwyn galluogi Mrs D i ystyried ei hopsiynau.

Cyfeiriodd y Tîm Dyledion a Thai Mrs D at ymgynghorydd ariannol annibynnol a chanfuwyd fod gan Mrs D bensiwn preifat y gallai dynnu arno, a fyddai'n ddigon i glirio'r ôl-ddyledion yn llawn.

Yn y gwrandawiad llys, cynrychiolodd y tîm Dyled a Thai Mrs D ac enillodd 28 o ddiwrnodau ychwanegol gan y Barnwr, er bod y benthyciwr yn gwrthwynebu hyn. Roedd hyn yn caniatáu i Mrs D gael digon o amser i ryddhau'r elw o'i phensiwn i ad-dalu'r balans morgais yn llawn, a therfynwyd yr achos meddiant yn ei herbyn.



# Materion Allweddol

## Methiant teuluol

Gwelwyd cynnydd sylweddol mewn cleientiaid yng Nghaerdydd a oedd wedi colli llety a ddarparwyd gan rieni, perthnasau neu ffrindiau. Yn 2017/18 dyma oedd yr achos mwyaf o ddigartrefedd. Mae'r categori hwn yn cynnwys y cleientiaid hynny sy'n ‘cysgu ar soffa’. Golyga hyn eu bod yn aros dros dro gydag amrywiol ffrindiau/perthnasau tra'n ceisio dod o hyd i lety parhaol.

### Pobl Ifanc

Mae llawer o'r rhai sy'n cyflwyno eu hunain yn ddigartref yn bobl ifanc sydd wedi profi methiant o ran eu perthynas â'u rhieni. Yn aml, mae bywyd teuluol wedi dod yn anodd, ac mewn rhai achosion efallai na fydd yn ddiogel i'r person ifanc aros yn y cartref.

Gall pobl ifanc gael cymorth o’r Porth Pobl Ifanc, mynediad pwynt sengl a ddarperir mewn partneriaeth rhwng y Gwasanaethau Plant, gwasanaethau digartref a Llamau. Mae hyn yn cynnwys gwasanaeth gwybodaeth a chymorth tai, asesiad o ddyletswyddau statudol y Gwasanaethau Digartrefedd a Phlant, gwasanaeth cyfryngu ac asesiad anghenion cymorth.

### Cyfryngu Pobl Ifanc

Gall cyfryngu fod yn arf effeithiol i atal digartrefedd. Mae cyfryngwyr yn gweithio gyda phobl ifanc a'u teuluoedd i nodi a datrys y problemau sy'n achosi gwrthdaro o fewn y cartref teuluol. Lle nad yw hyn yn bosibl neu'n briodol, cynhelir asesiadau digartrefedd a rhoddir cyngor i sefydlu atebion tai a chefnogaeth addas.

Er bod y nifer cyffredinol o bobl ifanc sy'n cael mynediad at wasanaethau trwy Llamau wedi cynyddu 13% dros y cyfnod Ebrill 2015 a Mawrth 2018, gostyngodd y nifer sy'n manteisio ar wasanaethau cyfryngu o 41%.



### Canolfan Ieuenctid Canol y Ddinas (Siop Un Stop)

Yn ddiweddar, cytunodd y Cyngor i sefydlu a rhedeg Hyb Ieuenctid lle bydd Gwasanaethau Plant, Tai a Gwasanaethau Ieuenctid yn cael eu cydleoli, gan ddarparu un 'drws blaen' i bobl ifanc sy'n chwilio am wybodaeth, cyngor a chymorth.

GWEITHREDU

**Datblygu gwasanaethau i bobl ifanc ymhellach trwy’r Hyb Ieuenctid Canol Dinas arfaethedig.**

# Materion Allweddol

## Cyfryngu Seibiant

Ym mis Tachwedd 2017, sefydlwyd project peilot Cyfryngu Seibiant yn hostel pobl ifanc Northlands, i dreialu cefnogi pobl ifanc sydd dan fygythiad o gael eu troi allan o'r cartref teuluol gyda chyfnod o lety seibiant, ynghyd â chyfryngu teuluol dwys. Nod yr ymyriad hwn yw galluogi'r person ifanc i ddychwelyd gartref yn hytrach na mynd i mewn i'r system digartrefedd.

Mae ystafell seibiant yn rhoi lle i berson ifanc aros am hyd at 28 diwrnod i ffwrdd oddi wrth eu teulu, gan roi iddynt ofod anadlu sydd ei wir angen. Yn ystod y cyfnod hwn, rhoddir cefnogaeth a chyfryngu dwys i'r person ifanc a'u teulu i'w galluogi i weithio trwy eu gwahaniaethau tuag at ddatrysiad.

Ers Ionawr 2018, mae 80% o'r cleientiaid sydd wedi defnyddio'r cyfleuster wedi dychwelyd i'w cartref teuluol.



Hostel Pobl Ifanc Northlands

## Astudiaeth Achos

Roedd dyn ifanc yn cael anhawster adref ac yn wynebu gorfod gadael.

Symudodd i mewn i'r ystafell seibiant yn Northlands a dechreuwyd cyfryngu dwys rhyngddo ef a'i fam. Treuliodd y cyfryngwyr amser adeiladu cydberthnasau ac ymddiriedaeth a daeth y sesiynau yn adeiladol, gyda'r person ifanc a'i fam yn cael eu cefnogi i gyfleu eu teimladau gyda'r bwriad o adfer eu perthynas. Cynhaliwyd sesiynau cyfryngu ddwywaith yr wythnos a dechreuodd y berthynas wella'n gyflym.

Ar ôl ychydig wythnosau, dechreuodd y person ifanc fynd yn ôl i gartref y teulu am brydau bwyd. Cryfhaodd hyn ei berthynas nid yn unig gyda'i fam ond hefyd gyda'i frodyr a'i chwiorydd, a fu'n achos rhywfaint o'r gwrthdaro blaenorol. Yn raddol, datblygodd yr ymweliadau â'r cartref i aros dros nos, a aeth yn hwylus hefyd.

Dychwelodd y person ifanc adref yn llwyddiannus, ond parhaodd cyfryngwyr i gadw mewn cysylltiad wrth i'r teulu adunedig newydd addasu i fyw gyda'i gilydd eto. Cynhaliwyd ychydig mwy o sesiynau cyfryngu yn y cartref teuluol er mwyn sicrhau bod y dychweliad yn esmwyth, a bod y teulu'n parhau i deimlo eu bod yn cael cefnogaeth ar adeg hanfodol.

Dywedodd y ddau barti eu bod yn teimlo'n hapusach ac yn fwy galluog i gyfathrebu â'i gilydd i atal gwrthdaro rhag adeiladu yn y dyfodol.

# Materion Allweddol

### Cyfryngu Teuluol

Efallai y bydd cyfryngu hefyd yn briodol mewn achosion lle mae teuluoedd yn wynebu materion gorlenwi, yn enwedig lle mae gan gleientiaid blant bach neu'n feichiog ac yn byw gartref gyda'u rhieni. Gall gwaith atal fod yn anodd o dan yr amgylchiadau hyn gan fod cleientiaid yn aml yn cyflwyno gyda hysbysiad i adael yr eiddo yn syth, sy'n golygu bod yn rhaid eu gosod mewn llety dros dro.

GWEITHREDU

**Darparu ymyriadau cyfryngu amserol, hawdd eu defnyddio ar gyfer teuluoedd, landlordiaid a thenantiaid.**

Mae pryder y gallai diwygiadau i Gynllun Dyrannu Tai Caerdydd yn 2015, gan gynnwys newidiadau i statws blaenoriaeth ar y rhestr aros am dai, annog cyflwyniadau digartrefedd gan gleientiaid sy'n byw gyda pherthnasau neu ffrindiau. Felly, bydd y Cyngor yn ystyried rhoi blaenoriaeth ychwanegol i ymgeiswyr tai ar y rhestr aros sy'n byw gyda ffrindiau neu berthnasau mewn amgylchiadau tai gorlawn neu amgylchiadau eithriadol eraill.

GWEITHREDU

**Rhoi blaenoriaeth ychwanegol i ymgeiswyr tai sy'n byw gyda ffrindiau neu berthnasau, sy'n byw mewn amgylchiadau tai gorlawn neu amgylchiadau eithriadol eraill.**

### Y Gwasanaeth Trwyddedau a Swyddog Ymweld

Mewn ymateb i'r nifer o hysbysiadau a roddwyd gan rieni, perthnasau neu ffrindiau, mae menter cyfryngu newydd wedi'i dreialu gan y Gwasanaeth Dewisiadau Tai.

Yn ystod ymweliad cartref gyda'r rhieni yn bresennol, cynigir cyfryngu ochr yn ochr â chyngor ar dai, gan gynnwys gwybodaeth am Restr Aros Tai Caerdydd a'r sector rhent preifat. Os yw cleient yn gallu aros yn eiddo eu rhieni yn y tymor byr, tra canfyddir llety arall, mae hyn yn lleddfu pwysau ar y gwasanaeth llety dros dro.

Yn ystod y cyfnod rhwng Ionawr a Mehefin 2018, atalwyd 73% o'r holl gleientiaid a ymgymerodd â'r arbrawf newydd rhag mynd i mewn i lety dros dro.


***Byddwn Yn:***

**Adolygu llwyddiant y Cynllun Dyrannu Tai diwygiedig i sicrhau bod anghenion pobl ddigartref a phobl agored i niwed eraill yn cael eu diwallu.**

# Tai Cymdeithasol

Mae gan y Cyngor a Chymdeithasau Tai partneriaethol gyfanswm o bron i 26,000 o unedau llety, ac mae pob un ohonynt yn defnyddio'r un Rhestr Aros Tai a Dyrannu Tai Caerdydd i osod eu heiddo.

Mae'r Cynllun yn sicrhau bod y rhai sydd â'r angen mwyaf am dai yn cael eu cynorthwyo yn gyntaf, bod gan ymgeiswyr ddewis am ble maent eisiau byw, ac y cynigir eiddo iddynt sy'n gweddu i'w hanghenion.




Mae 7,891 o aelwydydd ar Restr Aros Tai Caerdydd (ar 1 Hydref 2018), ac oddeutu 400 o ymgeiswyr newydd yn ymuno â'r rhestr bob mis. Mae angen cydbwyso dyraniad eiddo rhwng ymgeiswyr digartref ac ymgeiswyr rhestrau aros cyffredinol, gyda llawer ohonynt mewn angen dybryd am dai. Gosodwyd targed o 40% ar gyfer gosod tai i aelwydydd digartref. Mae gosodiadau cyffredinol yn eithrio llety ymddeoliad a llety arbenigol arall.

Ymrwymodd pob landlord cymdeithasol yng Nghaerdydd i roi tai i aelwydydd digartref, a rhagorir ar y targed yn rheolaidd. Yn 2017/18, gwnaed 51% o osodiadau cyffredinol a 41% o'r holl



Eiddo Cyngor Newydd ym Mhentref Llaneirwg

Yn anffodus, o ganlyniad i'r lefel isel o osodiadau tai cymdeithasol yn gyffredinol, cynyddodd yr amser aros cyfartalog ar gyfer cleientiaid digartref o 290 diwrnod i 338 diwrnod yn ystod 2017/18.

Mae nifer y gosodiadau yn amrywio o flwyddyn i flwyddyn ac mae nifer o ffactorau'n dylanwadu arnynt, megis nifer y tenantiaid sy'n symud ymlaen a nifer y cynlluniau adeiladu newydd sy'n dod yn barod i'w gosod yn ystod y flwyddyn.

Mae gan y Cyngor gynlluniau ar waith i adeiladu 1,000 o dai cyngor newydd erbyn 2022, gyda chynlluniau pellach i adeiladu 1,000 o gartrefi ychwanegol yn y tymor hwy. Bwriada'r Cymdeithasau Tai Partneriaethol adeiladu o leiaf 1,000 o unedau dros yr un cyfnod.

Er gwaethaf y rhaglen adeiladu uchelgeisiol hon, mae'n amlwg na fydd y cyflenwad yn bodloni'r galw. Felly, bydd yn hanfodol gwneud y defnydd mwyaf bosib o'r sector rhent preifat er mwyn diwallu anghenion aelwydydd digartref.

# Y Sector Rhent Preifat

## Colli Llety Rhent Preifat (ac eithrio ôl-ddyledion rhent)

Mae colli llety rhent, yn arbennig i'r rhai yn y sector rhent preifat, yn un o brif achosion digartrefedd yng Nghaerdydd.

Er mwyn ac ymdrin â'r broblem, bydd y tîm Atal yn gweithio'n rheolaidd gyda landlordiaid preifat i helpu cleientiaid aros yn eu cartrefi, neu i gynorthwyo cleientiaid i ddod o hyd i lety arall yn y sector rhent preifat.

Rhoddodd Deddf Tai (Cymru) 2014 bŵer i awdurdodau lleol gyflawni dyletswydd digartref drwy'r sector rhent preifat, felly mae'n bwysig bod y Cyngor yn gweithio'n rheolaidd gyda'r sector ac yn sefydlu perthynas dda gydag asiantau a landlordiaid preifat.

Ceir lefel uchel o waith atal llwyddiannus yn y maes hwn - **yn 2017/18, arhosodd 78% o'r holl gleientiaid a gyflwynodd i'r gwasanaeth fel rhai mewn perygl o golli'r math hwn o lety yn eu cartrefi, neu symudasant i lety sicr newydd yn y sector rhent preifat.** Fodd bynnag, mae colli llety rhent yn parhau i fod yn broblem gan nad yw llawer o gleientiaid yn mynd at y gwasanaeth nes bod y llety eisoes wedi'i golli.

Datgelodd ymchwiliad i pam fod gymaint o gleientiaid yn colli eu llety rhent mai un o'r ffactorau allweddol yw landlordiaid sy'n tynnu eu heiddo yn ôl o'r farchnad rentu yng Nghaerdydd a'i roi ar werth. Mae tystiolaeth yn awgrymu bod hyn, yn rhannol, oherwydd newidiadau deddfwriaethol a rhyddhad treth ehangach.

**GWEITHREDU**

**Datblygu tîm Sector Rhent Preifat arbenigol, gan ddarparu cyngor a chymorth o safon uchel i landlordiaid.**

Yn achos y cleientiaid hynny sy'n dod at y gwasanaeth am gymorth pan fo bygythiad o golli eu llety rhent, gall y Cyngor gynorthwyo trwy wahanol ddulliau gan gynnwys cyfryngu â'u landlord os yw'r mater yn ymwneud â gwaith atgyweirio neu rentu, gan alluogi darparu cymorth fel bo'r angen i gynorthwyo cleient i gynnal y denantiaeth, neu drwy helpu i ddod o hyd i lety rhent preifat arall.

### Y Farchnad Rhentu Preifat yng Nghaerdydd

Yn 2015, comisiynodd y Cyngor Asesiad Marchnad Dai Leol (LHMA) i ddeall natur a lefel y galw a'r angen am dai yng Nghaerdydd. Canfu'r LHMA mai'r rhent preifat cyfartalog y mis yng Nghaerdydd yn £559 am eiddo 1 ystafell wely, £689 ar gyfer 2 ystafell wely ac £857 ar gyfer 3 ystafell wely. Mae hyn yn cymharu â chyfraddau'r Lwfans Tai Lleol o £414.24 (1 ystafell wely), £507.68 (2 ystafell wely) a £600.00 (3 ystafell wely).

Dengys data Cyfrifiad 2011 bod y farchnad perchen-feddiannydd wedi gostwng ers 2001 o 69.2% i 59.2% o'r ddinas. Mae rhentu preifat bron wedi dyblu o 11.1% i 21.9%. Bellach, mae'r sector rhent preifat yn fwy na'r sector cymdeithasol, sydd wedi aros ar oddeutu 17%.

# Y Sector Rhent Preifat

## Lleddfu Digartrefedd drwy'r Sector Rhent Preifat

Yn ogystal â chynorthwyo'r cleientiaid hynny sy'n colli llety o'r fath, mae'r sector rhent preifat yn ffynhonnell bwysig o lety i gleientiaid digartref eraill.

Yn 2017/18, lleddfwyd digartrefedd nifer sylweddol o gleientiaid o dan y ddyletswydd i helpu i ddiogelu trwy gael llety yn y sector rhent preifat. Mae hyn yn arwydd calonogol o gydweithio llwyddiannus gyda landlordiaid y sector preifat pan fo cleient o dan y ddyletswydd hon.

Cyflawnwyd y ddyletswydd digartrefedd lawn i lawer llai o gleientiaid trwy dderbyn cynnig sector preifat, gan awgrymu nad yw cleientiaid yn cael eu cynorthwyo i ddod o hyd i lety rhent preifat unwaith y bydd y ddyletswydd lawn wedi'i derbyn a'u bod mewn llety dros dro.

## Rhentu Doeth Cymru

Er mwyn gwella safonau ac arferion rheoli yn y sector rhent preifat, mae Deddf Tai (Cymru) 2014 yn ei gwneud yn ofynnol i unrhyw landlord sydd ag eiddo rhent yng Nghymru gofrestru gyda Rhentu Doeth Cymru.

Mae Rhentu Doeth Cymru yn sicrhau bod landlordiaid ac asiantau sy'n gosod a rheoli tai wedi'u hyfforddi'n dda i ddarparu eiddo sector preifat sydd wedi'i reoli'n well.

Mynegodd bartneriaid bryderon y gallai hyn fod yn atal landlordiaid rhag rhentu eiddo ac achosi rhai i adael y farchnad rentu.




### Rhwystrau i Gael Mynediad i'r Sector Rhent Preifat

Mae'r rhwystrau rhag cael mynediad i'r Sector Rhent Preifat yn cynnwys:

- Lefelau rhent uchel yng Nghaerdydd
- Nid yw lefel y Lwfans Tai Lleol wedi codi yn unol â rhent preifat; bydd yn parhau i gael ei rewi ar lefel 2016 tan 2020
- Amharodrwydd landlordiaid i'w osod i hawlwyr budd-dal
- Gofyniad gan rai asiantau gosod i ddarparu ffioedd asiantaeth a gwarantwyr

**GWEITHREDU**

**Darparu hyfforddiant Sector Rhent Preifat i ddarpar denantiaid gael y cyfle mwyaf bosib o denantiaeth lwyddiannus.**

## Cymhellion Ariannol

Rhwystr arall i ddod o hyd i lety arall yn y Sector Rhent Preifat yw'r angen am fondiau a rhent ymlaen llaw. Mae'r Cyngor yn ariannu nifer o gynlluniau sy'n darparu cymorth ariannol i alluogi mynediad i'r sector rhent preifat.

**Cynllun Bondiau Dewisiadau Tai** - Rhoddir bondiau a/ neu rent ymlaen llaw i ymgeiswyr cymwys sydd ag angen blaenoriaeth am dai.Gellir eu defnyddio i atal a lleddfu digartrefedd.

Mae nifer y taliadau rhent ymlaen llaw a ddarperir drwy'r Cynllun Dewisiadau Tai wedi cynyddu 154% dros y cyfnod 2015 - 2018, tra bod nifer y bondiau a ddarperir trwy'r dulliau hyn wedi cynyddu 259%.

**Bwrdd Bondiau Huggard** - Darperir bondiau i gleientiaid nad ydynt yn cael eu hasesu fel angen blaenoriaethol trwy ddarparu gwarant blaendal rhent i landlordiaid.

Bu gostyngiad yn nifer y bondiau a ddarparwyd trwy Fwrdd Bondiau Huggard dros y cyfnod 2015 - 2018.

**Cynlluniau Bond Hostel a Llety â Chymorth** - Mae'r rhain yn helpu cleientiaid sy'n barod i symud i lety sefydlog yn y sector rhent preifat. Darperir cynlluniau ar hyn o bryd yn yr YMCA, Oakhouse a'r Wallich a bu’r rhain yn llwyddiannus iawn.

**Gwasanaeth Ailgysylltu** - Bydd Gwasanaeth Ailgysylltu Byddin yr Iachawdwriaeth yn cynorthwyo cleientiaid heb gysylltiad lleol nad ydynt yn gallu dychwelyd gartref i lety sector preifat yng Nghaerdydd. Mae ganddynt gyllid i dalu bondiau a rhentu ymlaen llaw i gleientiaid cymwys.

**GWEITHREDU**

**Adolygu'r ystod o gymhellion a roddir i landlordiaid preifat i gwrdd â'r newidiadau yn y Sector Rhent Preifat.**

**GWEITHREDU**

**Adolygu'r cynlluniau bond cyfredol gan sicrhau bod y rhain yn cwrdd ag anghenion pob cleient, yn gynaliadwy ac yn addas i'r diben.**

***Byddwn Yn:***

**Gwella'r gefnogaeth sydd ar gael i landlordiaid preifat er mwyn sicrhau bod gan deuluoedd digartref fynediad i lety sector preifat o safon da.**

# Llety Dros Dro a Llety â Chymorth

Mae'r Cyngor yn darparu ystod eang o lety dros dro i gleientiaid digartref. Caiff y llety ei grwpio i bedwar math, a reolir trwy Byrth Llety a Chefnogaeth.

Er bod y Pyrth yn cael eu grwpio'n fras gan ddemograffig (er enghraifft pobl ifanc), nid oes ganddynt feini prawf cyfeirio llym a rhoddir cleientiaid yn y llety sydd fwyaf addas i'w hanghenion penodol. Er enghraifft, efallai y bydd rhai pobl sengl yn cael eu gosod o fewn llety dan brydles y Porth Teulu os yw hyn yn diwallu eu gofynion orau.

**Porth Pobl Sengl**

**Crëwyd y Porth Pobl Sengl yn 2015 i sicrhau mai dim ond y rheiny sydd fwyaf mewn angen sy'n cael mynediad at ddarpariaeth llety â chymorth, ac i reoli'r nifer a roddir mewn llety heb gysylltiad lleol.**

- Crëwyd y Porth Pobl Sengl yn 2015 i sicrhau mai dim ond y rheiny sydd fwyaf mewn angen sy'n cael mynediad at ddarpariaeth llety â chymorth, ac i reoli'r nifer a roddir mewn llety heb gysylltiad lleol.
- Llwybr mynediad sengl i amrywiaeth o lety â chymorth ar gyfer pobl sengl a chyplau.
- Gall pobl ddigartref sengl gael mynediad at y Porth Pobl Sengl heb angen blaenoriaethol, a bydd lefel y llety a ddarperir yn dibynnu ar fregusrwydd y cleient.
- Defnyddir y mwyafrif o lety Porth fel tai dros dro ar gyfer cleientiaid digartref nes bod llety parhaol addas yn cael ei sicrhau. Bydd rhai cleientiaid yn parhau yn y Porth Pobl Sengl am gyfnod hwy tra bydd eu hanghenion cymorth yn cael sylw, a gall nifer fechan o gleientiaid aros mewn rhai projectau yn fwy parhaol oherwydd eu hanghenion.
- Mae nifer o lwybrau arbenigol yn y Porth Pobl Sengl, er mwyn sicrhau mynediad hawdd i grwpiau sy'n agored i niwed, fel y rhai sy'n cysgu allan neu'r rhai sy'n gadael y carchar.

**Llety Bris**

**71 Unedau**

- Gofod Llawr
- Podiau
- Gwelyau Argyfwng
- Lloches Nos

**Hosteli**

**232 Unedau**

**Llety â Chymorth**

**256 Unedau**

## Porth Pobl Ifanc

**Lansiodd y Cyngor y Porth Llety a Chefnogaeth i Bobl Ifanc yn 2015 i reoli llety â chymorth i bobl ifanc yng Nghaerdydd. Mae'n rhoi mynediad cyfartal i bobl ifanc i lety waeth ba ddeddfwriaeth y mae eu dyletswydd briodol yn ymwneud â hi.**

**Mae cyfuno adnoddau llety yn ehangu'r dewis o lety i bobl ifanc, gan ganiatáu iddynt gael eu gosod mewn lle sy'n briodol i'w hanghenion. Y dewisiadau yw: -**

- **Llety Hostel - sy'n darparu cefnogaeth ar lefel uchel i ganolig**
- **Llety â chymorth llai, 24 awr**
- **Projectau llety â chymorth lefel isel - sy'n darparu cymorth lefel isel, yn aml ar sail ymweld, i bobl ifanc yn y gymuned**
- **Tŷ Llety â Chymorth - darparu amgylchedd 'teuluol' i'r person ifanc**
- **Tŷ Llety â Chymorth**

## Porth Llety a Chefnogaeth i Bobl Ifanc

Unwaith y bydd pobl ifanc yn barod i symud ymlaen o'u llety yn y Porth Llety a Chefnogaeth i Bobl Ifanc, bydd y rheiny sydd angen cymorth pellach yn cael hyfforddiant tenantiaeth i'w galluogi i reoli tenantiaeth yn llwyddiannus yn y dyfodol. Mae hyn yn darparu llwybr cyson a chynaliadwy allan o lety â chymorth.

**Hosteli, Brys a Llety â Chymorth Lefel Isel**

**103 Unedau**

**Llety â Chymorth Dwys**

**45 Unedau**

**Daw atgyfeiriadau i'r Porth Llety a Chefnogaeth i Bobl Ifanc o'r Porth Pobl Ifanc, gwasanaeth pwynt mynediad sengl i bobl ifanc sydd angen tai. Mae'r gwasanaeth: -**

- **Yn gydweithrediad rhwng Gwasanaethau Plant y Cyngor a gwasanaethau digartrefedd**
- **Wedi'i leoli yn swyddfeydd y Porth Pobl Ifanc yn Heol Charles**
- **Mae Llamau yn darparu gwasanaethau, cyngor a chyfryngu cymorth i bobl ifanc a'u teuluoedd**
- **Yn derbyn atgyfeiriadau ar gyfer pobl ifanc ddigartref mewn angen blaenoriaeth, rhwng 16 a 21 oed**
- **Gall pobl ifanc nad ydynt mewn angen blaenoriaeth rhwng 18 a 21 oed gael mynediad i'r Porth hwn trwy hepgoriad bregusrwydd; fel arall fe'u cyfeirir at y Porth Pobl Sengl.**

**Porth Teulu**

Mae'r Porth Teulu yn darparu llety yn bennaf ar gyfer teuluoedd digartref sydd ag angen blaenoriaeth. Mae'n cynnig ystod o lety, yn ddibynnol ar lety ac anghenion cymorth.

**Hosteli a Llety â Chymorth**
**124 Unedau**

**Eiddo ar Brydles**
**343 Unedau**

Darpara hosteli teuluoedd gymorth 24 awr i deuluoedd digartref sydd ag anghenion cymorth, tra bod llety ar brydles heb gefnogaeth wedi'i wasgaru ledled Caerdydd yn y gymuned.

Fel gyda'r Pyrth eraill, defnyddir peth o'r llety hwn ar gyfer cleientiaid nad ydynt yn dod i mewn i ddemograffig y Porth. Er enghraifft, rhai pobl sengl, cyplau neu bobl ifanc sy'n arbennig o agored i niwed.

**Porth Rhywedd-Benodol**

Datblygwyd y Porth Rhywedd-Benodol a gyflenwir gan RISE Caerdydd i sicrhau y gall y rhai sy'n dioddef trais yn erbyn menywod, cam-drin domestig neu drais rhywiol gael mynediad at y gwasanaeth sy'n addas ar gyfer eu hanghenion.

Mae'r gwasanaeth yn llwybr sengl at wasanaethau sy'n cynnig siop un stop 24/7 i'r cleientiaid hyn gael mynediad at:

- Gyngor a chymorth
- Cynllunio diogelwch
- Atgyfeiriadau i asiantaethau eraill

Gall cleientiaid hunangyfeirio, gael eu cyfeirio gan y Gwasanaeth Dewisiadau Tai neu Ganolfan Diogelu Aml-Asiantaeth Caerdydd (MASH) sy'n cydlynu atgyfeiriadau gan yr Heddlu, Gwasanaethau Cymdeithasol a MARAC.

### Cymorth mewn Llety

- Argyfwng/ Lloches
- Symud ymlaen
- Achosion heb hawl i Gronfeydd Cyhoeddus
- Llety â Chymorth
- Derbyn ac Asesu
- Rheoli'r system Porth

### Cymorth yn y Gymuned

- Achub Tenantiaeth
- Rhaglenni Hunan Gymorth
- Tîm Dechrau'n Deg Arbenigol
- Ymgysylltu â'r Gymuned
- Cefnogaeth Tenantiaeth
- Therapi/ Cwnsela
- IPAs Arbenigol Plant
- Hyfforddiant/ Newid sy'n para

**Argyfwng Cynhaliaeth Uchel/ Lloches**
**31 Unedau**

**Argyfwng Cynhaliaeth Ganolig/ Lloches**
**12 Unedau**

**Tai â Chymorth**
**12 Unedau**

# Llety Dros Dro a Llety â Chymorth



Os oes 'rheswm dros gredu' bod cleient yn ddigartref ac mewn angen blaenoriaethol, yna mae'n ddyletswydd ar y Cyngor i ddarparu llety dros dro dan Ddeddf Tai (Cymru) 2014. Gellir darparu llety dros dro trwy unrhyw un o'r pedwar Porth Llety a Chefnogaeth.

Fodd bynnag, fel rhan o'r camau rhesymol i helpu i sicrhau llety, mae Cyngor Caerdydd yn defnyddio swm sylweddol o lety dros dro a chymorth i leddfu'n llwyddiannus ddigartrefedd pobl sengl sydd heb angen blaenoriaeth.

Mae gan Gaerdydd ystod eang o dai dros dro a thai â chymorth o ansawdd uchel ac mae wedi llwyddo i osgoi defnyddio llety gwely a brecwast ers mis Ionawr 2006.

Cynyddodd nifer y cleientiaid sy'n dod i mewn i lety dros dro, tra bod y nifer sy'n symud ymlaen i lety parhaol wedi gostwng yn ystod y blynyddoedd diwethaf. Arweiniodd hyn at dreulio cyfnodau hwy mewn darpariaeth dros dro.

## Porth Llety a Chefnogaeth i Bobl Sengl

Mae data y Porth Pobl Sengl yn cael ei fonitro'n barhaus. Yn 2017/18, defnyddiodd 1,409 o bobl y gwasanaeth, ond gwnaed 3,208 o leoliadau, gan ddangos bod llawer o unigolion yn cael eu gosod o fewn y gwasanaeth fwy nag unwaith mewn blwyddyn. Efallai bod hyn yn rhannol oherwydd symud rhwng gwahanol fathau o lety o fewn y Porth, ond mae monitro gwell wedi dangos bod nifer uchel o gleientiaid yn rhoi'r gorau i lety neu'n cael eu troi allan o lety ac yn cael ail fynediad yn ddiweddarach. Mae 51 o gleientiaid wedi eu cartrefu fwy nag 20 gwaith ers i'r Porth gael ei lansio yn 2015 ac mae nifer y symudiadau negyddol o'r Porth yn llawer mwy na symud ymlaen yn bositif. Bu rhywfaint o welliant yn nifer y symudiadau cadarnhaol yn ystod 2017/18 ond mae symudiadau negyddol allan o lety sengl yn parhau i fod yn destun pryder a chaiff hyn ei archwilio ymhellach yn adran Cysgu Allan y strategaeth hon.

Ceir amrywiaeth o gefnogaeth i helpu pobl i symud ymlaen o'r Porth Pobl Sengl pan maent yn barod. Y llwybr traddodiadol yw symud pobl o leoliadau mewn llety brys, drwy hosteli rheng flaen ac os oes angen i lety â chymorth eilaidd, ac yn olaf, i fyw'n annibynnol mewn llety parhaol.

Fel rhan o'r newidiadau arfaethedig i Gynllun Dyrannu Tai Caerdydd, bydd strategaeth fwy cadarn ar gyfer cleientiaid sy'n barod i symud ymlaen o hostel neu lety â chymorth yn cael ei datblygu. Bydd gofyn i gleientiaid ddewis o leiaf bedair ardal argaeledd uwch er mwyn cynyddu'r siawns y bydd cynnig tai cymdeithasol priodol yn dod ar gael o fewn amser rhesymol.

# Llety Dros Dro a Llety â Chymorth

## Porth Llety a Chefnogaeth i Bobl Ifanc

Mae'r Porth Llety a Chefnogaeth i Bobl Ifanc yn darparu llety â chymorth priodol neu lety â chymorth i bobl ifanc, lle gallant aros nes eu bod yn barod i fyw'n annibynnol. Yn ystod 2017/18, cyflwynodd 226 o bobl unigryw i'r gwasanaeth gan arwain at 420 o leoliadau. Mae hyn yn cynnwys unigolion sy'n cael mynediad i lety sawl gwaith o fewn yr un flwyddyn.

Bu cynnydd sylweddol yn nifer y bobl ifanc sy'n symud ymlaen yn bositif o'r Porth, 125 yn 2017/18 o'i gymharu â 104 yn 2016/17. Roedd y rhan fwyaf o symudiadau positif i mewn i dai cymdeithasol sef 64, cynnydd o 33 yn 2016/17. Roedd dychwelyd gartref hefyd yn uchel, gan gynyddu o 32 i 43, gan ddangos llwyddiant cyfryngu teuluol mewn rhai tai llety. Roedd symud i'r sector rhent preifat yn parhau'n isel.

Er bod y symudiadau negyddol yn is nag yn y Porth Pobl Sengl, mae'n dal i fod yn siomedig o uchel ar 88, cynnydd o 68 o'r flwyddyn flaenorol. Mae angen adolygu'r ddarpariaeth llety â chymorth ar gyfer pobl ifanc sydd ag anghenion cymhleth.

Disgwylir ailgomisiynu llety i bobl ifanc dros y flwyddyn i ddod. Mae sicrhau symudiad positif i bobl ifanc yn darged allweddol ar gyfer y gwasanaeth newydd a bydd y rhesymau dros symud yn negyddol yn cael eu monitro'n ofalus.

**GWEITHREDU**

**Adolygu'r llety sydd ar gael i bobl ifanc sydd ag anghenion cymhleth.**

## Cynllun Hyfforddiant Tenantiaeth

Mae'r cynllun hyfforddiant tenantiaeth yn helpu pobl ifanc sy'n barod i symud o lety â chymorth i fyw'n annibynnol, ond sydd angen cymorth i reoli eu tenantiaeth. Mae'r cynllun ar gael i bobl ifanc sy'n ymwneud â'r Gwasanaethau Plant a'r rheiny a dderbyniwyd fel rhai digartref trwy'r Porth Llety a Chefnogaeth i Bobl Ifanc.

Gwahoddir y person ifanc i fynychu sesiwn hyfforddi sy'n cwmpasu gwybodaeth am y rhestr aros am dai, telerau ac amodau cytundeb tenantiaeth, cyfrifoldebau tenantiaid a landlordiaid, a sut i dalu eu biliau cyfleustodau. Os byddant yn cwblhau'r hyfforddiant yn llwyddiannus, fe'u gosodir mewn band blaenoriaeth Rhestr Aros Tai Caerdydd. Pan fydd cynnig addas o lety ar gael, caiff y person ifanc ei arwyddo fel tenant rhagarweiniol. Mae Llamau yn darparu cefnogaeth i'r person ifanc am o leiaf y 12 wythnos gyntaf, ond gellir ymestyn hyn am hyd at 6 mis.

Os na all y person ifanc reoli'r denantiaeth, gellir ei gynorthwyo i symud yn ôl i lety â chymorth.

Ers i'r cynllun ddechrau ym mis Mawrth 2016, mae 102 o bobl wedi cwblhau'r hyfforddiant tenantiaeth yn llwyddiannus, ac mae 98 ohonynt yn cynnal tenantiaethau cymdeithasol ar hyn o bryd.

# Llety Dros Dro a Llety â Chymorth

## Porth Teulu

Mae'r rhan fwyaf o deuluoedd digartref yn cael eu cartrefu mewn llety ar brydles o fewn y gymuned gyda rhai wedi'u cartrefu mewn hosteli teuluol. Rhoddwyd 497 o aelwydydd mewn llety yn ystod 2017/18, gostyngiad o 641 yn 2016/17.

Symuda'r mwyafrif helaeth o gleientiaid ymlaen i dai cymdeithasol (364 o aelwydydd yn 2017/18). Er bod cynnydd o bron i 30% mewn cleientiaid sy'n cael eu cynorthwyo i lety yn y sector rhent preifat, mae'r niferoedd gwirioneddol yn parhau i fod yn gymharol isel ar 85 o aelwydydd.

Arhosodd teuluoedd yn hwy mewn llety ar brydles a hosteli teuluol yn ystod 2017/18 oherwydd symud arafach ymlaen i lety parhaol a achoswyd gan nifer llai o osodiadau tai cymdeithasol.



Hostel Teulu Greenfarm

Caiff teuluoedd sydd angen mwy o gymorth eu lleoli mewn un o ddwy hostel teulu, lle gallant dderbyn cymorth ychwanegol gan gynnwys cymorth rhianta.

## Project Gweithiwr Cefnogi Tai

Nod y project Gweithiwr Cefnogi Tai yw darparu cymorth sy'n canolbwyntio ar yr unigolyn i gleientiaid sy'n byw mewn llety dros dro ar brydles, sydd angen cymorth i symud ymlaen i lety parhaol. Yn seiliedig ar dechnegau cyfweld ysgogol, mae'r project yn rhoi grym i gleientiaid symud ymlaen yn annibynnol o lety dros dro ar brydles, yn bennaf i'r sector rhent preifat, yn hytrach nag aros am dai cymdeithasol. Oherwydd ei lwyddiant, ehangwyd y project ym mis Ebrill 2018 i gynorthwyo cleientiaid sydd dan fygythiad o ddigartrefedd hefyd. Mae'r project nawr yn cynorthwyo cleientiaid sy'n agored i niwed sydd ag anghenion cymorth uchel i gwblhau eu camau rhesymol i helpu atal eu digartrefedd, a pharhau i ymgysylltu â'r holl wasanaethau perthnasol.

Rhwng Ebrill 2018 ac Awst 2018, cefnogodd y project 61 o gleientiaid mewn llety ar brydles a 34 gyda dyletswydd atal. O'r achosion lle cwblhawyd y gefnogaeth, sicrhaodd 54% lety sector rhent preifat.

**GWEITHREDU**

**Gwella'r gwasanaethau i gleientiaid sy'n byw mewn llety dros dro i'w helpu i ddod o hyd i'w llety eu hunain.**

# Llety Dros Dro a Llety â Chymorth

## Porth Rhywedd-Benodol

Rheolir y Porth Llety a Chefnogaeth Rhywedd-Benodol gan wasanaeth RISE fel rhan o wasanaeth cynhwysfawr sy'n ac ymdrin â thrais yn erbyn menywod, cam-drin domestig a thrais rhywiol. Mae rhai cleientiaid sy'n mynd i mewn i'r Porth yn gwneud hynny dros dro er mwyn caniatáu gosod darpariaeth gwella lle bo angen. Efallai y bydd angen lleoli cleientiaid eraill mewn llety argyfwng/ lloches diogel gyda chefnogaeth barhaus.

Ymgysylltodd 688 o gleientiaid â'r Porth Rhywedd-Benodol yn 2017/18. Rhoddwyd 238 mewn llety a derbyniodd 308 gefnogaeth i aros gartref. Cafodd 142 o gleientiaid eu cyfeirio allan o Gaerdydd neu i'r Porth Pobl Sengl. Mae pwysau ar lety lloches yn golygu na ellir gosod yr holl rai sydd ei angen, ac mae angen cynyddu symud ymlaen er mwyn rhyddhau'r llety hwn.

Unwaith y bydd cleientiaid yn barod i symud ymlaen i fyw'n annibynnol, mae'r sector rhent preifat wedi bod yn adnodd pwysig gyda nifer sylweddol o gleientiaid yn cael cymorth i gael mynediad i'r math hwn o lety.

### Astudiaeth Achos

Roedd 'A' wedi ffoi o'i chartref oherwydd cam-drin domestig ac roedd pryderon mawr am ei diogelwch. Yn dilyn asesiadau gan dîm Dyletswydd RISE, cafodd ei hasesu fel risg uchel a chafodd mynediad i loches. Nid oedd gan 'A' unrhyw fath o annibyniaeth ariannol na phersonol, roedd ei hyder a'i chred ynddi'i hun yn eithriadol o isel. Cefnogwyd hi i sefydlu cyfrif banc newydd, gan ddefnyddio budd-daliadau, gwneud cais am dŷ, cael gafael ar gymorth cyfreithiol a chysylltu â'r heddlu. Hefyd darparwyd sesiynau cefnogi ar gyfer adeiladu hyder a hunan-barch.

Yn ddiweddar, symudodd 'A' i loches arall, sy'n caniatáu iddi fyw'n fwy annibynnol, tra'n parhau i gael sesiynau cefnogi. Mae hi bellach yn ariannol annibynnol ac mae'n hyderus yn mynychu apwyntiadau ar ei phen ei hun.

Mae 'A' hefyd yn mynychu apwyntiadau cyfreithiol yn annibynnol ac mae ganddi agwedd gadarnhaol gyffredinol at fywyd. Yn ogystal, mae hi'n hapus iawn gyda'r posibilrwydd o symud ymlaen o'r lloches a chael ei chartref ei hun.

**GWEITHREDU**

**Archwilio rhoi blaenoriaeth bellach ar y rhestr aros i grwpiau sy'n agored i niwed, megis y rhai sy'n cysgu allan neu'r rhai sy'n barod i symud ymlaen o hosteli.**

**GWEITHREDU**

**Sicrhau fod yr holl ddarparwyr tai yn ymwybodol o'r cynlluniau bond/ rhent ymlaen llaw a hyrwyddo'r defnydd o'r Sector Rhent Preifat.**

**Byddwn yn:**

**Lleihau'r amser a dreulir ym mhob math o lety dros dro a hostel trwy gynyddu dewisiadau symud ymlaen.**

# Llwybrau Arbenigol

**Yn ychwanegol at y prif byrth llety, mae llwybrau eraill sy'n cefnogi cleientiaid digartref ag anghenion penodol.**

## Ffoaduriaid

Mae'r Gwasanaeth Cefnogi Lloches Cenedlaethol (NASS) yn darparu cefnogaeth a llety i geiswyr lloches tra bod eu ceisiadau yn cael eu hystyried. Unwaith y ceir statws caniatâd i aros neu statws ffoaduriaid gan y Swyddfa Gartref, yna bydd y llety a ddarperir gan NASS yn cael ei dynnu'n ôl. At ddibenion yr adolygiad digartrefedd, archwiliwyd sampl o 264 o achosion o bobl dan fygythiad o ddigartrefedd a rhai oedd wirioneddol yn ddigartref, a gofnodwyd yn y categori Colli Llety Rhent yn 2017/18. O'r sampl, roedd 66 (25%) yn gleientiaid a oedd wedi colli llety a ddarparwyd gan NASS.

Fel rheol, bydd cleientiaid yn cael 28 diwrnod o ddyddiad y penderfyniad ar loches i adael y llety a ddarperir gan NASS a gallant, os dymunant, gyflwyno i Gyngor Ffoaduriaid Cymru unrhyw bryd hyd at y 28$^{ain}$ diwrnod. Fodd bynnag, nid oes angen iddynt ymgysylltu â'r gwasanaeth ac yn aml mae cyfleoedd ar gyfer gwaith atal yn gyfyngedig.

Mae angen cyfathrebu gwell rhwng y Cyngor a darparwyr llety NASS i sicrhau bod cleientiaid yn derbyn help cyn colli eu llety.

## Ymadawyr Carchardai

Mae ymadawyr carchardai yn cyfrif am nifer sylweddol o bobl sy'n cael mynediad at wasanaethau digartrefedd. Yn 2017/18, cafodd 256 o ymadawyr carchar eu cyflwyno i'r gwasanaeth fel rhai digartref.

Yn 2015 cyflwynodd Llywodraeth Cymru y Llwybr Carcharorion, a'i nod yw cefnogi pobl sy'n gadael y ddalfa i'w hatal rhag dod yn ddigartref, a thrwy hynny wella eu hailsefydlu i gymdeithas a lleihau eu risg o aildroseddu. Dylai'r cynllunio ddechrau cyn gynted ag y maent yn mynd i mewn i'r carchar, gyda Swyddog Ailsefydlu yn cefnogi'r carcharor gydag unrhyw faterion tai sydd ganddynt. Gall hyn gynnwys cysylltu ag asiantaethau statudol i gynnal hawliadau Budd-dal Tai yn ystod y ddedfryd, neu gyda landlordiaid preifat ynghylch ôl-ddyledion.

Deuddeng wythnos cyn rhyddhau, dylai'r Swyddog Ailsefydlu gynnal asesiad pellach o angen tai'r carcharor, a allai gynnwys cyfeirio at y Cyngor fel y gellir gwneud penderfyniad p'un a oes dyletswydd i'r carcharor o dan Ddeddf Tai (Cymru) 2014.

Yn anffodus nid yw'r Llwybr Carcharorion yn gweithio fel y rhagwelir ar hyn o bryd. Yn 2017/18, ni wnaeth cyfran uchel o'r carcharorion hynny a gyfeiriwyd at y Gwasanaeth Dewisiadau Tai gan y carchar gyflwyno eu hunain ac ni chawsant asesiad digartrefedd llawn. Mae hyn yn dangos bod anawsterau wrth annog carcharorion i ymgysylltu â'r llwybr ar hyn o bryd. Mae pryderon hefyd wedi codi am gyn-filwyr gydag ymddygiad troseddol a'u gallu i gael mynediad at dai.

Mae'n ofynnol i adolygiad o'r Llwybr Carcharorion asesu a oes cyfle i wella gwaith atal gyda'r rhai sy'n gadael y carchar.

Cytunwyd y bydd cynrychiolwyr o Garchardai Ei Mawrhydi a Gwasanaethau Prawf yn ymuno â'r tîm aml-asiantaeth yn y Ganolfan Dewisiadau Tai i helpu i adolygu a gwella'r llwybr i'r rheiny sy'n rhan o'r system cyfiawnder troseddol.

# Llwybrau Arbenigol

## Menywod sy'n Gadael Carchardai

Nodwyd nad yw carcharorion benywaidd sy'n gadael carchar Parc Eastwood yn aml yn cyflwyno i'r Gwasanaeth Dewisiadau Tai ar ôl eu rhyddhau o'r carchar. Mewn rhai achosion, mae hyn yn arwain at i gleientiaid barhau ar y cylch digartrefedd, y carchar a gwaith stryd.

Datblygwyd gweithdrefn newydd gan y Gwasanaeth Dewisiadau Tai ar y cyd â Chymru Ddiogelach; y Cwmni Adsefydlu Cymunedol; Gwasanaethau Prawf; Pobl a'r Adran Gwaith a Phensiynau i geisio torri'r patrwm hwn a chynyddu nifer y cleientiaid sy'n symud ymlaen i fyw'n annibynnol.

Gwneir atgyfeiriadau i'r Gwasanaeth Dewisiadau Tai 12 wythnos cyn eu rhyddhau, yna bydd cais digartref y cleient yn dechrau cael ei asesu. Caiff y Cyngor ei hysbysu o'r diwrnod rhyddhau tua pythefnos ymlaen llaw, a bydd yn dechrau'r broses o ddod o hyd i leoliad addas yn seiliedig ar y wybodaeth a ddarperir fel bod llety yn ei le ar y diwrnod rhyddhau.

**GWEITHREDU**

**Adolygu'r llwybr carcharorion ac adeiladu ar lwyddiant y llwybr carcharorion i fenywod sy'n agored i niwed.**

## Rhyddhau o'r Ysbyty

Er mwyn cefnogi atal a lleddfu digartrefedd, mae Gwasanaeth Dewisiadau Tai y Cyngor, y Gwasanaeth Byw'n Annibynnol, y Gwasanaethau Cymdeithasol a'r Bwrdd Iechyd yn gweithio mewn partneriaeth i ddarparu amrywiaeth o atebion sy'n cael effaith gadarnhaol ar oedi wrth drosglwyddo o ofal a llif cleifion mewn ysbytai.



Ysbyty Athrofa Cymru

Mae Swyddogion Ailsefydlu Tai yn helpu cleientiaid gyda phroblemau iechyd corfforol a meddwl; maent yn gweithio yn yr ysbytai i nodi anghenion llety fel y gellir ymdrin â'r rhain yn gynnar. Mae hyn yn helpu i leihau amser yn yr ysbyty.

Yn aml, ceir achosion lle na all cleifion ddychwelyd adref oherwydd nad yw eu heiddo presennol bellach yn addas iddynt fyw yn annibynnol; efallai y bydd eraill yn gofyn am addasiadau i'w cartref, neu efallai eu bod wedi bod yn ddigartref pan aethant i mewn i'r ysbyty. Bydd y Swyddog Ailsefydlu Tai yn cefnogi'r claf i wneud cais i Restr Aros Tai Caerdydd, neu chwilio am lety preifat priodol, gan sicrhau bod unrhyw lety yn briodol i'w hanghenion. Os oes angen, cyfeirir at y Gwasanaeth Dewisiadau Tai yn uniongyrchol a chynhelir asesiad digartrefedd.

Mae gan y Cyngor chwe eiddo Camu i Lawr wedi'u haddasu hefyd ar gyfer pobl sydd angen llety tymor byr arall i gynorthwyo â'u rhyddhau o'r ysbyty; mae hyn yn cynnwys lle mae angen addasiadau wedi rhwystro'r claf rhag mynd gartref.

***Byddwn yn:***

**Adolygu llwybrau arbenigol i wasanaethau i sicrhau eu bod yn gweithio'n effeithiol.**

# Cefnogaeth i Bobl sy'n Agored i Niwed

## Cefnogaeth i Bobl sy'n Agored i Niwed


Mae gwasanaethau a ariennir gan Cefnogi Pobl yn darparu cymorth sy'n gysylltiedig â thai i gleientiaid sy'n ddigartref neu sydd mewn perygl o fod yn ddigartref. Maent yn helpu pobl agored i niwed i ymdrin â phroblemau unigol neu luosog megis dyledion; cyflogaeth; rheoli tenantiaeth; camddefnyddio sylweddau; cam-drin domestig a phroblemau iechyd meddwl. Comisiynir y gwasanaethau gan y Cyngor ac fe'i cyflwynir, yn bennaf, gan sefydliadau'r trydydd sector. Gellir rhannu'r math o gefnogaeth a ddarperir yn ddau gategori:

**Cefnogaeth Pan Fo'r Angen Generig:** - darperir yng nghartref y cleient ei hun, i'w hatal rhag dod yn ddigartref ac i gynnal eu tenantiaeth. Comisiynwyd Cynlluniau Cymorth Pan Fo'r Angen Arbenigol hefyd gyda'r nod o ailsefydlu unigolion ag anghenion mwy cymhleth, megis iechyd meddwl.

**Projectau Cymorth Seiliedig ar Llety:** - rheolir drwy'r Porth, darperir cefnogaeth ar y safle mewn hosteli, llochesau cam-drin domestig ac mewn llety â chymorth i gleientiaid ag anghenion penodol, megis camddefnyddio sylweddau, salwch cronig a problemau iechyd meddwl.

Gweler isod anghenion arweiniol ac eilaidd yr holl gleientiaid a gafodd gymorth yn ystod 2017/18:

- Problemau iechyd meddwl oedd yr angen arweiniol ac eilaidd mwyaf ar gyfer yr holl gleientiaid a gynorthwywyd yn ystod 2017/18. Roedd 1,706 o gleientiaid wedi cofnodi iechyd meddwl fel angen arweiniol a 1,452 fel angen eilaidd.
- Anableddau dysgu oedd yr ail angen arweiniol mwyaf gyda 1,101 o gleientiaid.
- Roedd camddefnyddio sylweddau yn creu anghenion cefnogaeth sylweddol. Roedd cyfanswm o 1,882 o gleientiaid wedi camddefnyddio naill ai cyffuriau neu alcohol fel angen arweiniol neu eilaidd.



# Cefnogaeth i Bobl sy'n Agored i Niwed

## Cymorth Fel Bo'r Angen

Ail-gomisiynwyd cymorth fel bo'r angen generig o fis Ebrill 2017, i gynyddu'r ffocws ar atal digartrefedd. Darperir y gefnogaeth gan ddau sefydliad, Pobl a Byddin yr Iachawdwriaeth ac mae'r math o gefnogaeth a ddarperir yn cynnwys help gyda hawlio budd-daliadau a chael mynediad at wasanaethau iechyd priodol yn ogystal â chysylltu â landlordiaid ynghylch ôl-ddyledion rhent a materion tenantiaeth eraill.

Yn 2017/18, rhoddwyd cefnogaeth fel bo'r angen gyffredinol i gyfanswm o 1,932 o gleientiaid. Roedd gan 695 o gleientiaid cymorth fel bo'r angen generig angen arweiniol o faterion iechyd meddwl cofnodedig. Roedd gan 409 o gleientiaid iechyd meddwl fel angen eilaidd. Mewn 80% o achosion, daeth y cymorth i ben mewn modd cynlluniedig; pan na ddigwyddodd hynny, y prif reswm oedd nad oedd y cleient yn ymgysylltu. Cafodd 70% o'r holl gleientiaid ddiwallu eu hanghenion cymorth.

Mae'r gwasanaeth cymorth fel bo'r angen generig wedi'i gynllunio i gyflenwi ymyriadau byrrach ond gellir ei ymestyn os bydd angen i ddatrys materion mwy cymhleth - yn 2017/18, cwblhaodd 42% o unigolion gefnogaeth o fewn y 3 mis rhagweladwy. Cafodd y 58% arall gefnogaeth estynedig am gyfnod hwy. Mynegwyd pryderon gan bartneriaid am natur gefnogaeth tymor byr, ond fel y dangoswyd, cafodd hyn ei ymestyn ar sail achos unigol, fel yr oedd y cleient ei angen.

**GWEITHREDU**

**Sicrhau bod y rhai sydd ag anghenion cymhleth yn cael eu cynorthwyo i ymgysylltu â chymorth cyn gynted ag y bo modd, gan adeiladu ar lwyddiant cynlluniau fel y Gwasanaeth Gweithiwr Cefnogi Tai a thrwy hysbysebu argaeledd Cefnogaeth Fel Bo'r Angen.**

### Astudiaeth Achos

Cyfeirwyd Ms P, a oedd yn rhiant sengl, at gymorth fel bo'r angen ar ôl i Lwfans Cymorth Cyflogaeth gael ei atal am ei bod wedi methu asesiad meddygol oherwydd problemau iechyd meddwl parhaus. Wedi hynny, daeth ei Budd-dal Tai i ben, gan roi ei thenantiaeth mewn perygl gan nad oedd hi'n gallu talu'r rhent.

Cynorthwyodd y gweithiwr cymorth fel bo'r angen Ms P i gyflwyno ailystyriaeth orfodol o'i ESA ond yn anffodus gwrthodwyd hyn, ac roedd yn rhaid i'r achos fynd i'r tribiwnlys. Cefnogwyd Ms P drwy'r tribiwnlys a chafodd ei ESA ei adfer yn y pen draw. Roedd y gweithiwr cymorth hefyd wedi helpu Ms P i wneud cais newydd am Gredyd Cyffredinol a dyfarnwyd costau tai i dalu'r rhent wrth symud ymlaen.

Cyn cael ei chyfeirio at gymorth fel bo'r angen, roedd Ms P wedi cronni ôl-ddyledion rhent ac roedd y landlord wedi cyflwyno hysbysiad troi allan dilys, gan roi hyd yn oed mwy o straen ar ei hiechyd meddwl. Cysylltodd Cymorth Fel Bo'r Angen â'r Gwasanaeth Dewisiadau Tai, gan arwain at ddyfarniad o £1,000 ar gyfer yr ôl-ddyled. Gan fod Ms P wedi bod yn denant hirdymor ac na fu unrhyw broblemau cyn hyn, cytunodd y landlord i dynnu'r hysbysiad troi allan yn ôl, ac ymestyn y denantiaeth am 12 mis.

Yn olaf, cynorthwywyd Ms P i geisio cefnogaeth barhaus gan dimau Iechyd Meddwl Cymunedol ar gyfer ei chyflwr deubegynol, iselder a phryder.

# Cefnogaeth i Bobl sy'n Agored i Niwed

## Iechyd Meddwl

Cydnabyddir bod cynnydd sylweddol wedi bod mewn cleientiaid sy'n cyflwyno i'r gwasanaeth digartref yng Nghaerdydd â phroblemau iechyd meddwl.

## Asesiadau Angen Blaenoriaeth

Cynyddodd nifer y cleientiaid a gafwyd mewn angen blaenoriaethol ac sy'n agored i niwed oherwydd salwch meddwl, anawsterau dysgu neu anableddau o 214% dros y cyfnod Ebrill 2015 a Mawrth 2018. Er bod hyn yn gynnydd sylweddol, mae cyfanswm y cleientiaid yn y grŵp hwn yn gymharol isel (66 yn 2017/18) o ystyried y cynnydd a welwyd mewn rhannau eraill o'r gwasanaeth. Mae angen adolygiad o sut y nodwyd problemau iechyd meddwl yn ystod yr asesiad digartrefedd cychwynnol er mwyn sicrhau bod holl anghenion y cleient yn cael eu diwallu.

**GWEITHREDU**

**Adolygu sut y caiff problemau iechyd meddwl eu nodi yn ystod asesiadau digartrefedd a sicrhau bod anghenion cymorth yn cael eu diwallu.**

## Anghenion Cymorth

Fel y nodwyd yn flaenorol, adnabuwyd problemau iechyd meddwl fel yr angen arweiniol a'r angen eilaidd mwyaf i bob cleient a oedd yn cael ei gefnogi mewn projectau llety neu dderbyn cefnogaeth fel bo'r angen yn 2017/18. Mae partneriaid hefyd wedi nodi problemau iechyd meddwl fel un o brif achosion sylfaenol digartrefedd. Dywedodd traean o'r rhai a gwblhaodd arolwg cleientiaid fod problemau iechyd meddwl wedi cyfrannu at eu sefyllfa dai.

## Ailsefydlu Tai

Cyflwynwyd Swyddog Ailsefydlu Tai sy'n delio'n benodol â chleientiaid â phroblemau iechyd meddwl ym mis Medi 2014 i wella llif cleifion a lleihau'r amser a dreulir yn yr ysbyty trwy ddatrys problemau tai a digartrefedd o fewn arosiadau mewnol cleifion iechyd meddwl eilaidd.

Mae enghreifftiau o'r gefnogaeth a'r cymorth a ddarperir yn cynnwys:

- Atal proses atal/troi allan
- Atal digartrefedd
- Ceisiadau llety â chymorth
- Cais cynllun rhyddhau o'r ysbyty
- Atgyfeiriadau cymorth tenantiaeth
- Ymddygiad Gwrthgymdeithasol a chysylltu â'r heddlu
- Gweithio mewn partneriaeth rhwng Tai Caerdydd, Gwasanaethau Cymdeithasol a staff y GIG

Derbynnir atgyfeiriadau gan bob adran iechyd meddwl. Ers Ionawr 2018, mae'r Swyddog Ailsefydlu Tai wedi gweithio gyda thua 100 o gleifion mewnol iechyd meddwl ac mae gan y swyddog faich achosion agored cyfredol o 25 o gleientiaid.

## Cyn-filwyr


Mae'r Cyngor yn llofnodwr Cyfamod y Lluoedd Arfog. Datblygwyd prosesau asesu ac allgymorth digartrefedd i nodi'r rhai sy'n cyflwyno o'r Lluoedd Arfog a sicrhau eu bod yn cael eu cyfeirio at gymorth priodol.

# Cysgu Allan

## Cysgu Allan

Datblygwyd Strategaeth Cysgu Allan 2017-2020 Caerdydd mewn ymateb i'r broblem fawr o gysgu allan yn y ddinas. Mae Caerdydd, yn unol â gweddill Cymru, wedi gweld tueddiad gynyddol o ran cysgu allan yn ystod y blynyddoedd diwethaf. Ers cyflwyno'r Strategaeth yn 2017, mae'r nifer sy'n cysgu allan yng Nghaerdydd wedi sefydlogi ond mae'n parhau i fod yn broblem.

**Cymhariaeth Flynyddol Cysgu Allan**




## Cysylltiad Lleol

| Dadansoddiad o Gysgu Allan Cysylltiad Lleol (ar 31.09.18) | |
|---|---|
| Caerdydd | 77% |
| Awdurdodau Lleol eraill Cymru | 4% |
| Lloegr | 3% |
| EEA | 1% |
| Arall | 16% |

Mae gan ryw dri chwarter o bobl sy'n cysgu allan gysylltiad lleol â Chaerdydd i bwrpasau tai. Bu gostyngiad bach yn y rheiny heb gysylltiad lleol yn gyffredinol (gan gynnwys achosion o'r tu allan i'r sir). Hefyd gostyngodd nifer y gwladolion Ardal Economaidd Ewropeaidd (AEE) sy'n cysgu allan yng Nghaerdydd i lefelau isel iawn.

Gallai'r gostyngiadau hyn fod yn rhannol oherwydd gwaith llwyddiannus gan y Gwasanaeth Ailgysylltu, gyda chyfradd ymgysylltu o 88% dros y cyfnod 2015-2018 a 74% o gleientiaid yn cyflawni canlyniad llety cadarnhaol. Yn achos cleientiaid arbennig o agored i niwed heb gysylltiad lleol, gall Caerdydd roi hepgoriad i ganiatáu i'r person gael gwasanaethau. O'r cyfanswm o 31 o geisiadau hepgoriad a wnaed, derbyniwyd 51% am gyfnod amhenodol, derbyniwyd 39% dros dro a gwrthodwyd 10%.

## Estyniad y Gwasanaeth Allgymorth Digartrefedd

Ehangwyd Tîm Allgymorth Digartrefedd y Cyngor ac estynnwyd ei oriau gweithredu. Hyfforddwyd yr holl staff yn llawn i gwblhau asesiadau digartrefedd statudol, a gallant wneud penderfyniadau ar angen blaenoriaethol. Hefyd ystyrir gofynion iechyd a chefnogaeth, gan sicrhau cyfeirio ymlaen at wasanaethau addas.

## Mentrau Llety Brys

Rhoddwyd ystod o fentrau llety brys yn eu lle, gan gynnwys mynediad uniongyrchol at leoedd gwely i gleientiaid a nodwyd gan y tîm Allgymorth a gwell cefnogaeth i'r rheiny sy'n cael mynediad at ddarpariaeth frys, gyda'r nod o gynorthwyo mwy o bobl sy'n cysgu allan i mewn i lety a chreu lleoliadau cynaliadwy. Bwriedir datblygu llety argyfwng ychwanegol a gwell, gan gynnwys podiau unigol pellach yn Nhŷ Tresillian a hosteli Huggard ac estyniad i Loches Nos Wallich.

**GWEITHREDU**

**Cyflwyno llety argyfwng ychwanegol a gwell.**

# Cysgu Allan

## Projectau Arloesol

Datblygwyd nifer o brojectau arloesol gan y Cyngor a phartneriaid i ymdrin â'r bylchau a nodwyd yn y ddarpariaeth ac i fodloni anghenion penodol:

**Peilot Tai yn Gyntaf** - yn cynnig lleoliadau uniongyrchol i denantiaethau Cyngor, Cymdeithas Tai a thenantiaethau preifat gyda chymorth cofleidiol dwys.Ym mis Mehefin 2018, setlwyd pum cleient mewn llety, gan gynnal cyfanswm o dros 100 wythnos o denantiaethau.

**Project Compass** - llety hunangynhwysol sy'n cynnig cymorth arbenigol dwys i bobl ag anghenion cymhleth lluosog. Cefnogwyd pymtheg o gysgwyr allan yn 2017, a symudodd pob un ohonynt i wasanaethau rheng flaen. Ym Mehefin 2018, cefnogwyd pedwar unigolyn arall o fewn y project.

**Tŷ Tarian** - llety arbenigol a chefnogaeth i fenywod sydd ag anghenion cymorth uchel ac sydd mewn perygl o gael eu hecsbloetio.Ym mis Mehefin 2018, roedd y pum cleient wedi cynnal cyfanswm o 82 wythnos o lety.

**Gwasanaethau Atebion Caerdydd** - cyfleuster galw heibio amgen i bobl sy'n cysgu allan nad ydynt yn cael mynediad at wasanaethau eraill. Yn ystod Ebrill-Mehefin 2018, gwnaed 558 o gysylltiadau a chefnogwyd 160 o unigolion, gyda 26 ohonynt yn gofyn am lety ac yn cael y llety hwnnw.

**Project Cysgu Allan** - yn seiliedig ar egwyddorion Tai yn Gyntaf, yn darparu atgyfeiriad uniongyrchol i lety hunangynhwysol i gysgwyr allan cronig sydd wedi methu ag ymgysylltu neu barhau i ddefnyddio darpariaeth arall. Ym mis Mehefin 2018, roedd pob un o'r 15 o gleientiaid yn ymgysylltu'n dda â staff, ac roedd 7 wedi cynnal lleoliadau am fwy na blwyddyn.

### Astudiaeth Achos

Bu Mr D yn hysbys i'r gwasanaeth Allgymorth ers sawl blwyddyn. Roedd ei ddefnydd trwm o gyffuriau yn golygu ei fod yn anodd ei leoli ac roedd unrhyw amser a dreuliwyd ganddo mewn hosteli yn fyr. Roedd ganddo natur ymosodol iawn a chollai ei dymer yn hawdd, gan greu rhwystrau i gael mynediad i lety. Cafodd ei wahardd sawl tro o wasanaethau dydd oherwydd ei ymddygiad ymosodol.

Gosodwyd Mr D mewn llety brys neu hostel 26 gwaith o fewn cyfnod o 4 blynedd gyda 14 digwyddiad o droi allan, symudiadau, neu beidio ag ymddangos, a bu'n cysgu allan am gyfnodau hir.

Fe'i cyfeiriwyd at y cynllun Tai yn Gyntaf, a redir gan Fyddin yr Iachawdwriaeth, sy'n anelu at ddarparu cefnogaeth ddwys a chyfannol i bobl ag anghenion cymhleth. Cynigiwyd llety i Mr D a dderbyniodd. Mae'n dal i fod yno, ac yn dal i gynnal y denantiaeth.

**GWEITHREDU**

**Adolygu llwyddiant Tai yn Gyntaf a chynlluniau peilot arloesol eraill.**

# Cysgu Allan

## Anghenion Cymhleth

Mae gan nifer uchel o bobl sy'n cysgu allan anghenion cymhleth sy'n deillio o brofiadau bywyd negyddol a/neu ddewisiadau ffordd o fyw personol, fel camddefnyddio sylweddau neu ymddygiad troseddol. Mae monitro'n nodi bod tua hanner yn nodweddiadol yn meddu ar anghenion cymorth arweiniol sy'n ymwneud â chamddefnyddio sylweddau; chwarter ag iechyd meddwl, a bron i chwarter ag alcohol.

| Anghenion Cefnogi Arweiniol Cysgwyr Allan (ar 31.09.18) | |
|---|---|
| Camddefnyddio Sylweddau | 51% |
| Iechyd meddwl | 25% |
| Alcohol | 24% |

Bydd gan lawer o'r cleientiaid hyn broblemau presennol, sy'n aml yn cyfrannu at gylch niweidiol o waharddiadau lluosog o wasanaethau, a symud rhwng cysgu allan, hosteli, carchar neu ysbyty.

Gwelir problemau troi allan, gadael llety a methiant lleoliadau ailadroddus yn amlwg yn y gwaith o fonitro’r Porth Pobl Sengl, gyda rhai cleientiaid yn cael eu lleoli fwy na 20 gwaith ers 2015. Er bod 204 o bobl sy'n cysgu allan wedi cael eu cynorthwyo i lety yn ystod 2017/18, bydd rhai o'r rhain yn unigolion ailadroddus, gan symud yn ôl a blaen ar y stryd sawl gwaith. Mae rhai sy'n cael eu cartrefi'n parhau i gysgu allan ar adegau ac efallai y byddant yn parhau i gardota yn ystod y dydd.

Un o'r materion allweddol a nodwyd gan bartneriaid fel rhwystr i letya’r rhai sy’n cysgu allan yw natur broffidiol gweithgarwch cardota neu fegera ar y stryd. Mae'r Cyngor a Heddlu De Cymru wedi gweithio mewn partneriaeth i greu Llwybr Cardota, gan fabwysiadu dull cymesur o ddefnyddio pwerau gorfodaeth yn erbyn pob math o weithgaredd cardota. Nod y llwybr yw ymgysylltu â chysgwyr allan a'u hannog i ffwrdd o gardota ac ymddygiad gwrthgymdeithasol arall, trwy gyfeirio at weithgareddau gwyro a gwasanaethau camddefnyddio sylweddau arbenigol lle bo angen. Mae'r Heddlu yn cydnabod yr angen am ymyrraeth gynnar a phwysigrwydd peidio â gwneud pobl fregus yn droseddwyr.

### ACE’s

Mae llawer o gleientiaid wedi dioddef Profiadau Plentyndod Niweidiol, a gall hyn arwain at gamddefnyddio sylweddau ac ymddygiad anhrefnus.

Mae'r Cyngor a'i bartner yn ymrwymedig i ACEs, a defnyddio dull sy’n ymwybodol o drawma.

Mae pryder ynglŷn â pha mor dda y mae gwasanaethau presennol yn cwrdd ag anghenion cymhleth y cleientiaid hyn, fel y dangosir gan nifer yr achosion o droi allan o lety â chymorth yn y Porth Pobl Sengl. Mae cyfraddau troi allan o'r llynedd fel canran o leoliadau yn amrywio o 3% i 39%.

Digwyddodd y mwyafrif yr achosion o droi allan oherwydd ymddygiad ymosodol a difrod i eiddo, ond cafodd pobl eu troi allan hefyd oherwydd diffyg cydymffurfio/ymgysylltiad â chymorth, ôl-ddyledion a defnyddio sylweddau.

Archwiliwyd perfformiad darparwyr unigol fel rhan o'r adolygiad, a bydd yn cael ei ddatblygu fel rhan o gynllun gweithredu'r strategaeth.

# Cysgu Allan

## Ymdrin â Digartrefedd Cylchol

Mewn ymateb i ddigartrefedd cylchol, mae'r Cyngor wedi cyflwyno peilot Rhaglen Eiriolaeth Digartrefedd sy'n darparu parhad o gefnogaeth ar ac oddi ar y strydoedd. Mae eiriolwyr yn gweithio gydag unigolion mewn dull trawma-ymwybodol i adnabod rhesymau a sbardunau i droi allan o lety neu adael llety, gyda'r nod o gynnal lleoliadau neu gefnogi symudiadau cadarnhaol.

Mae'r tîm Allgymorth hefyd yn gweithio'n agosach gyda'r Gwasanaeth Dewisiadau Tai i nodi'r math o lety fyddai orau i bobl sy'n cysgu allan.

GWEITHREDU

**Gweithio i leihau troi allan neu adael darpariaeth tai â chymorth.**

## Tîm Amlddisgyblaeth Canol y Ddinas

Yn ogystal, er mwyn ac ymdrin ag anghenion cymhleth yn well, bydd y tîm amlddisgyblaeth canol y ddinas yn cael ei ehangu i gynnwys camddefnyddio sylweddau penodol a gweithwyr iechyd meddwl; gwasanaeth nyrsio digartrefedd a chynghori ychwanegol. Hyfforddir staff cymorth hefyd i ddarparu gwasanaethau trawma-ymwybodol.

Mae cyllid ar gyfer y tîm aml-asiantaeth drefniant dros dro ar hyn o bryd. Mae angen i'r holl bartneriaid fod yn glir yn eu hymrwymiad i wella gwasanaethau i bobl agored i niwed a phobl anhrefnus.

GWEITHREDU

**Y Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus i weithio fel partneriaeth i adeiladu ar y tîm aml-asiantaethol yng nghanol y ddinas i gynnwys camddefnyddio sylweddau, gwasanaethau prawf a gwasanaethau iechyd meddwl.**

### Astudiaeth Achos

Cyfeiriwyd Ms B at y Rhaglen Eiriolaeth Digartrefedd o hostel rheng flaen gan ei bod mewn perygl o gael ei throi allan o'i llety oherwydd diffyg cydymffurfio, ôl-ddyledion rhent a datgysylltu o gefnogaeth.

Roedd gan Ms B broblemau camddefnyddio sylweddau a oedd yn cael eu hariannu trwy waith rhyw stryd yn y nos. Addasodd y gweithiwr cymorth ei oriau gwaith i ymgysylltu â Ms B ar amser oedd yn addas iddi, a chymerwyd nifer o gamau gweithredu llwyddiannus.

Yn gyntaf, cafodd ei chynorthwyo i geisio cefnogaeth briodol i'w hiechyd rhywiol. Yna sefydlwyd na fyddai'r hostel yn caniatáu iddi aros yno oherwydd ei diffyg ymgysylltiad, hyd yn oed pe sefydlid cynllun talu ar gyfer ei hôl-ddyledion. Ar ôl mynd at sawl darparwr, trafodwyd cytundeb gydag un er gwaethaf bod ganddi ôl-ddyledion blaenorol gyda'r darparwr dan sylw. Roedd yr hostel hon yn fwy addas ar gyfer ffordd o fyw Ms B, gyda staff 24/7 a fyddai'n gallu ymgysylltu â hi ar ei horiau dewisol.

Yn anffodus, cyn i Ms B gael ei throsglwyddo i'r hostel newydd, mynychodd wrandawiad llys a chafodd ddedfryd o garchar. Drwy gydol ei chyfnod o gymorth, datblygodd Ms B ymddiriedaeth yn y gweithiwr cymorth a gweithwyr proffesiynol eraill oherwydd y canlyniadau cadarnhaol a gyflawnwyd, ac efallai y byddai'n fwy tebygol o ymgysylltu â chymorth yn y dyfodol.

# Cysgu Allan

## Ymchwil ac Arfer Da

Er bod llawer o waith wedi'i wneud i ymdrin â chysgu allan, mae'r broblem yn parhau. Felly, comisiynir project ymchwil i ddeall yn well a yw gwasanaethau'n cwrdd ag anghenion, i adolygu ymarfer da, a nodi unrhyw fylchau sy'n weddill yn y ddarpariaeth.

Un enghraifft o'r fath o arfer da yw canolfan ddydd Leicester, 'Y Project', sy'n cyd-leoli gwasanaethau digartrefedd gyda gwasanaethau meddygol megis gweithwyr iechyd meddwl ar y safle, meddygon teulu a rhaglen iechyd gydol y flwyddyn. Ystyrir y model hwn wrth ddatblygu tîm amlddisgyblaethol Caerdydd ymhellach.




**GWEITHREDU**

**Comisiynu project ymchwil i adolygu effeithiolrwydd gwasanaethau ar gyfer y rhai sy'n cysgu allan ac unrhyw gyfleoedd i wella.**

## Trefniadau Partneriaeth

Mae angen dull amlasiantaethol cryfach i helpu unigolion anhrefnus a rhai sy'n agored i niwed, ac mae angen cydnabyddedig i gryfhau gweithio mewn partneriaeth wrth symud ymlaen.

**GWEITHREDU**

**Adolygu a chryfhau ymhellach y trefniadau partneriaeth i sicrhau bod dull amlasiantaethol clir i helpu unigolion anhrefnus a rhai sy'n agored i niwed**

***Byddwn yn:***

**Gwella gwasanaethau i'r rhai mwyaf agored i niwed trwy ymdrin ag achosion sylfaenol digartrefedd.**


# Cydraddoldebau


Mae monitro cydraddoldebau effeithiol yn offeryn pwysig y gellir ei ddefnyddio i lywio darpariaeth gwasanaethau digartrefedd yn y dyfodol.

## Oedran

Yn gyffredinol, mae oedran cleientiaid sy'n cael mynediad at wasanaethau digartrefedd yn cyd-fynd â phatrwm cyffredinol Caerdydd; fodd bynnag, tra mai dim ond 21% o boblogaeth Caerdydd sydd rhwng 16 a 24 oed, mae'r ffigwr ar gyfer cleientiaid digartref ychydig yn uwch, ar 25%. Ar gyfer y cleientiaid hynny sydd mewn angen blaenoriaethol ar gyfer llety, mae'r ffigwr yn codi i 34%.

Nid yw pob person ifanc a gynorthwyir â digartrefedd wedi cael eu cofnodi yn y graff, gan fod nifer yn cael mynediad i'r gwasanaeth trwy'r Gwasanaethau Plant.




## Rhyw


Yn 2017/18, roedd 66% o ymgeiswyr a oedd dan fygythiad digartrefedd yn fenywod. Roedd 57% o ymgeiswyr digartref yn ddynion. Fodd bynnag, roedd cyfran sylweddol uwch o fenywod oedd yn ddigartref ac mewn angen blaenoriaethol (72%). Mae hyn yn cymharu â rhaniad rhyw ledled Caerdydd o 51% o fenywod i 49% o ddynion. Fodd bynnag, caiff hwn ei ystumio gan yr arfer gweinyddol o gofnodi ymgeisydd benywaidd cwpl bob amser fel y prif ymgeisydd


# Cydraddoldebau

## Math o Aelwyd

Yn 2017/18, o'r 1,544 o gleientiaid a oedd dan fygythiad o ddigartrefedd, roedd 545 (35%) yn bobl sengl. O'r 1,976 o gleientiaid a ganfuwyd i fod yn ddigartref, roedd 1,429 (72%) yn bobl sengl. Mae'r ffigwr hwn yn sylweddol uwch na'r nifer gyffredinol o aelwydydd person sengl yng Nghaerdydd (a gymerwyd o gyfrifiad 2011).

O'r 669 o bobl ddigartref a chleientiaid mewn angen blaenoriaethol roedd 240 (36%) yn bobl sengl.




O'r cleientiaid hynny mewn cartrefi person sengl a oedd dan fygythiad o ddigartrefedd, roedd 336 (62%) yn ddynion. Yn achos y cleientiaid hynny a ddaeth yn ddigartref, roedd 1,060 (74%) yn ddynion ac yn achos pobl ddigartref oedd mewn angen blaenoriaethol, roedd 133 (55%) yn ddynion. Mae hwn yn wahaniaeth arwyddocaol, sydd angen ei archwilio ymhellach.




# Cydraddoldebau

## Ethnigrwydd

Mae ethnigrwydd cleientiaid sy'n manteisio ar wasanaethau digartrefedd yn fras yn dilyn patrwm y ddinas, ond un pwynt i'w nodi yw, er bod pobl Ddu/ Affricanaidd/ Caribïaidd/ Du Prydeinig yn cyfrif am 2% o boblogaeth Caerdydd, maent yn cyfrif am 10% o gleientiaid digartref. Mae angen ymchwilio ymhellach i'r rheswm dros y gwahaniaeth hwn.

Gwelir bod nifer uchel o gleientiaid na wyddys beth oedd eu hethnigrwydd, oherwydd bod data yn dod o ffynonellau heblaw'r Gwasanaeth Dewisiadau Tai sydd â systemau monitro gwahanol yn eu lle.




**GWEITHREDU**

**Gwneud dadansoddiadau data pellach a phrofi canfyddiadau trwy ymgynghori â chleientiaid.**


***Byddwn yn:***

**Archwilio'r rhesymau dros effaith wahaniaethol digartrefedd ar rai grwpiau, yn enwedig dynion iau a phobl o gefndiroedd ethnig penodol.**

# Cydraddoldebau

## Angen Blaenoriaethol ac Anabledd

Noda Cyfrifiad 2011 bod gan 18% o boblogaeth Caerdydd salwch cyfyngol hirdymor. Mae Deddf Tai (Cymru) 2014 yn sicrhau y bydd y cleientiaid hyn yn cael eu trin fel angen blaenoriaethol petaent yn ddigartref neu'n cael eu bygwth â digartrefedd.




Noda'r ddeddfwriaeth 'y gellir ystyried rhywun sy'n agored i niwed o ganlyniad i henaint, salwch meddwl neu anfantais neu anabledd corfforol neu reswm arbennig arall, neu rywun sydd yn byw gyda pherson o'r fath neu y byddai'n rhesymol disgwyl iddynt fyw â hwy', fel angen blaenoriaethol ar gyfer tai.

Rhwng 2015/16 a 2017/18, cynyddodd y ganran o'r cleientiaid hynny a oedd mewn angen blaenoriaethol, gan eu bod yn agored i niwed oherwydd anabledd corfforol, o fwy na 40%. Er gwaethaf y cynnydd hwn, mae'r cynnydd yn y niferoedd gwirioneddol yn gymharol isel o ystyried canran y bobl sy'n anabl o fewn y boblogaeth gyfan. (59 o gleientiaid neu 9% o Gleientiaid Angen Blaenoriaethol yn 2017/18).

## Iechyd Meddwl, Anawsterau Dysgu ac Anableddau Dysgu.

Cafwyd cynnydd o 214% yn nifer y cleientiaid a gafwyd mewn angen blaenoriaethol gan eu bod yn agored i niwed oherwydd salwch meddwl, anawsterau dysgu neu anableddau rhwng Ebrill 2015 a Mawrth 2018. Oherwydd y cynnydd mawr hwn a nifer y cleientiaid ag anghenion cymorth iechyd meddwl dynodedig, nodwyd hwn fel canfyddiad allweddol ac fe'i archwilir ymhellach ym mhennod Cefnogaeth i Bobl sy'n Agored i Niwed y strategaeth.

## Y Camau Nesaf

Bydd yr amcanion ‘Byddwn yn’ a geir drwy'r strategaeth hon yn ffurfio sail cynllun gweithredu pedair blynedd, i'w ddatblygu gyda phartneriaid. Bydd y cynllun gweithredu yn rhoi manylion am y gweithgareddau allweddol sydd i'w cyflawni ac yn dynodi canlyniadau clir, ynghyd â’r swyddogion a/neu sefydliadau arweiniol cyfrifol. Bydd y gwaith gweithredu'n cael ei fonitro'n fanwl, a chaiff y cynllun gweithredu ei adolygu a'i ddiweddaru yn ôl yr angen. Ni all y Cyngor gyflawni'r strategaeth ar ei ben ei hun, a bydd gweithio mewn partneriaeth yn hanfodol er mwyn sicrhau y gellir cyrraedd y canlyniadau a'r atebion gorau.

Mae pob un o'r amcanion ‘Byddwn yn’ a chamau gweithredu cysylltiedig wedi'u rhestru yn ein Crynodeb o Ymrwymiadau a'r ddogfen 'strategaeth ar dudalen' ategol.

**This document is available in English/ Mae’r ddogfen hon ar gael yn Saesneg**

UCHELGAIS PRIFDDINAS CAPITAL AMBITION

CARDIFF CAERDYDD